

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin

Adroddiad gan:

Dylan Phillips

15 Ionawr 2014

CYNNWYS

Tudalen

Cyflwyniad

3

Y cyfrifiad a'r Gymraeg

3

Cyfyngiadau'r cyfrifiad

3

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin

4

Diolchiadau

4

Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn 2011

5

1.1 Patrymau a newidiadau demograffig

5

1.2 Cyfansymiau a chanrannau sirol

6

1.3 Y Gymraeg ar lefel wardiau

9

1.4 Y Gymraeg ar lefel cymunedau

11

2 Siaradwyr Cymraeg yn ôl oed

13

3.1 Aelwydydd lle siaredir Cymraeg

18

3.2 Trosglwyddiad iaith yn y cartref

19

4 Siaradwyr Cymraeg yn ôl sgiliau llafar-llythrennedd

22

5 Siaradwyr Cymraeg yn ôl man geni

26

6 Siaradwyr Cymraeg yn ôl galwedigaeth, diwydiant
y gyflogaeth a dosbarth economaidd-gymdeithasol

30

Casgliadau

34

Atodiadau

39

Graffiau

Mapiau

Tablau

Cyflwyniad

Y Cyfrifiad a'r Gymraeg

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell bwysicaf o wybodaeth a feddwn am nifer, dosbarthiad a chyflwr y boblogaeth yng Nghymru. Yn ogystal â bod yn ddrych i'r newidiadau demograffig, cymdeithasol ac economaidd a wyneba ein cymunedau fesul degawd, y mae hefyd yn sail eithriadol o bwysig ar gyfer cynllunio polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau i'r blynyddoedd i ddod.

Ym 1891 y dechreuwyd hel gwybodaeth am yr iaith Gymraeg am y tro cyntaf yn y cyfrifiad a, heblaw ym 1941 ar ganol blynyddoedd trallodus yr Ail Ryfel Byd, cyhoeddwyd data manylach, mwy cynhwysfawr, a mwy soffistigedig am y Gymraeg a'i siaradwyr bob deng mlynedd oddi ar hynny. Yn anffodus, olrhain gwanychiad y Gymraeg a wnaeth y gwahanol gyfrifiadau yn ystod y ganrif a rhagor a aeth heibio. Ganrif yn ôl gallai bron miliwn o drigolion Cymru siarad Cymraeg, tra erbyn heddiw mae ei siaradwyr yn rhifo ychydig dros hanner hynny. Ym 1901 roedd hanner poblogaeth y wlad yn gallu siarad Cymraeg, a naw ymhob deg o drigolion Sir Gaerfyrddin. Erbyn heddiw mae canran cenedlaethol ei siaradwyr wedi disgyn i 20 y cant, tra bod ei siaradwyr yn Sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf erioed yn leiafrif oddi fewn i boblogaeth y sir. Fodd bynnag, er olrhain ei dirywiad, bu'r cyfrifiadau hefyd yn ysbardun ar gyfer gweithredu pwrpasol a phenderfynol o blaid y Gymraeg, ac fe'u defnyddiwyd fel erfyn cynllunio hynod o bwysig.

Cyfyngiadau'r Cyfrifiad

Serch hynny, er mor bwysig a gwerthfawr yw ystadegau'r cyfrifiad i unrhyw astudiaeth o gyflwr demograffig yr iaith a thueddiadau mewn newid iaith, rhaid cofio am gyfyngiadau'r cyfrifiad fel ffynhonnell o wybodaeth. Prif wendid y cyfrifiad yw ei fod yn gwbl ddibynol ar ddehongliad a chywirdeb y sawl sy'n llenwi'r ffurflen i asesu ei allu ei hun (a gweddill y teulu) i siarad Cymraeg – sgîl sydd yn gallu amrywio o unigolyn i unigolyn ac yn sicr yn peri atebion amrywiol ar ffurflen ateb y cyfrifiad. Bydd nifer o siaradwyr Cymraeg sydd yn ofni nad ydynt yn gwbl rhugl neu nad yw eu Cymraeg 'yn ddigon da' yn cofnodi nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, tra bod eraill sydd ag ychydig frawddegau o Gymraeg yn cofnodi eu bod yn gallu siarad yr iaith – does dim modd mesur rhugledd y siaradwyr. O gofio bod rhieni'n gyfrifol am asesu a chofnodi iaith eu plant, mae'n debygol bod ystadegau iaith y cyfnod oedran 3-15 oed yn gorliwio rhywfaint ar ffyniant y Gymraeg – ac o gofio bod mwyafrif plant Sir Gaerfyrddin yn mynychu ysgolion categori A ac yn derbyn addysg ddwyieithog, prin y gellid gweld bai ar y rhan fwyaf o rieni am gredu'n ddifffuant fod eu plant o ganlyniad yn meddu ar sgiliau dwyieithog cyflawn, boed hynny'n wir ai peidio. Ni chysylltir y cwestiwn iaith gydag unrhyw bau ieithyddol ychwaith ac ni ofynnir pa ddefnydd a wna'r unigolyn a'i deulu o'r iaith, felly gall hyn eto gamliwio atebion mewn modd negyddol ac mewn modd

cadarnhaol, yn ddibynnol ar ddehongliad yr atebydd. At hynny, oddi ar 1891, newidiwyd nifer o elfennau ymhob cyfrifiad gan olygu nad ydyw'n bosibl i gymharu ystadegau'r cyfrifiad yn fanwl o un degawd i'r llall ac yn sicr ddigon ddim dros gyfnod o ganrif. Newidiwyd y ffordd y gofynnwyd cwestiwn yr iaith ar ffurflen y cyfrifiad, newidiwyd sylfaen y boblogaeth a gyfrifwyd, a newidiwyd ffiniau'r cymunedau a'r wardiau ar lawr gwlad, a hyd yn oed ffiniau'r sir ei hun. Oherwydd hynny, mae'n bwysig iawn ein bod yn ymwybodol o gyfyngiadau ystadegau'r cyfrifiad.¹ Dylid cofio hefyd mai un ffynhonnell yw'r cyfrifiad o blith nifer o ffynonellau eraill.

Eto i gyd, erys data'r cyfrifiad fel ein prif ffynhonnell ar gyfer gorolwg ystadegol o sefyllfa'r iaith a'n prif ffon fesur o'i ffyniant, ac mae'r cyfrifiad yn parhau'n erfyn hynod o ddefnyddiol wrth astudio patrymau o newid.

Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn yn ddilyniant i adroddiad *Cymraeg Sir Gâr ar ddechrau'r 21ain ganrif* a baratowyd yn 2005 er mwyn dadansoddi ystadegau Cyfrifiad 2001. Paratowyd yr adroddiad hwn ar yr un ffurf ac yn yr un drefn, a gan ddefnyddio setiau data cyfatebol i'r rheini a ddefnyddiwyd ar gyfer 2001, fel bod cyfatebiaeth rhwng y ddau adroddiad a modd cymharu a chyferbynnu. Ar gyfer y dadansoddiad o Gyfrifiad 2001 olrheiniwyd sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin nôl i'r ystadegau iaith cyntaf a gyhoeddwyd ym 1891, felly er mwyn cael darlun hanesyddol llawn o'r newidiadau a fu yn hynt y Gymraeg yn y sir o droad yr ugeinfed ganrif dylid cyfeirio at yr adroddiad hwnnw.

Pwrrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau'r dadansoddiad blaenorol drwy ganolbwyntio ar ddata Cyfrifiad 2011 ac olrhain, dadansoddi a dehongli'r patrymau o newid a brofwyd oddi ar 2001.

Diolchiadau

Estynnir diolch yn arbennig i Lesley Rees, Swyddog Polisi Ymchwil a Gwybodaeth yn Adran Cwsmeriaid a Pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin am ddarparu'r holl setiau data a gwybodaeth am broffiliau demograffig gwahanol wardiau etholiadol y sir. Bu ei chymorth parod a rhadlon yn gynhorthwy sylweddol wrth baratoi'r adroddiad hwn ac ni ellid bod wedi cwblhau'r gwaith hebddi. Diolch.


¹ Am drafodaeth o gyfyngiadau cyfrifiadau iaith fel modd i fesur gallu ieithyddol trigolion, gw. Colin Baker, *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (3rd edition, Clevedon, 2001), pp.18-41. Am drafodaeth o gyfyngiadau'r cyfrifiad yng Nghymru yn benodol, gw. John Aitchison a Harold Carter, *Language, Economy and Society: The Changing Fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century* (Cardiff, 2000), pp.15-22.

Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn 2011

1.1 Patrymau a newidiadau demograffig

Parhau gyda llawer o themâu'r deugain mlynedd cynt oedd stori Sir Gaerfyrddin yn ôl tystiolaeth Cyfrifiad 2011. Roedd cyfanswm trigolion y sir yn dal i dyfu ac wedi cyrraedd 183,777 – y nifer uchaf o bobl erioed i fyw oddi fewn i ffiniau Sir Gâr, ac yn uwch hyd yn oed nag y bu ym 1931 ar benllanw oes diwydiannu a chyn timestl yr Ail Ryfel Byd a'r blynyddoedd blin a ddilynodd. Nid tan y 1980au a'r bwm economaidd y trodd y llanw a pheidiodd y cyfnod o grebachu a diboblogi, ac y dechreuodd y boblogaeth dyfu eto. Tyfu'n gyson fu'r niferoedd wedyn, a rhwng 2001 a 2011 y profwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth mewn cenhedlaeth gyfan, wrth i nifer y bobl chwyddo 10,931, neu +6.3 y cant.

Patrymau cynnydd mewn poblogaeth a dirywiad y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, 1891-2011



(gw. hefyd Tablau 1.1 a 1.2, a Graffiau 1.1 a 1.2)

Serch hynny, poblogaeth gynyddol oedrannus a drigai yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2011. Roedd hyn eto yn barhad o thema gyffredin yn hanes diweddar y sir. Gostwng a wnaeth canrannau'r genhedlaeth iau, gan ddisgyn i 13.8 y cant

o'r boblogaeth gyfan – sef gostyngiad o -5.2 y cant yn nifer y boblogaeth oddi ar Gyfrifiad 2001. Gostwng, fwy na heb, a wnaeth canran y plant 3-14 oed yn Sir Gaerfyrddin byth oddi ar 1921, pan gynrychiolai'r grŵp oed hwn dros chwarter y boblogaeth (25.6 y cant). Eto i gyd parhau i gynyddu a wnaeth canran y genhedlaeth hŷn trwy gydol yr un cyfnod. Ym 1921, 6.0 y cant yn unig o'r boblogaeth oedd dros 65 oed, ond erbyn 2011 roedd y ganran wedi cyrraedd 21.5 y cant. Rhwng 2001 a 2011 yn unig cynyddodd nifer y grŵp oed hwn +13.3 y cant. O ran niferoedd, roedd 24,514 o blant 3-14 oed yn byw yn Sir Gaerfyrddin yn 2011, tra bod 38,176 o drigolion 65 oed a hŷn – sef 13,662 yn fwy.

Gan fod cyfraddau geni a marw Sir Gaerfyrddin wedi aros yn weddol statig oddi ar ganol yr ugeinfed ganrif, mae'n amlwg mai mewnfudo oedd y prif reswm am y cynnydd net yn y boblogaeth. Yn 2011 roedd graddfa geni Sir Gâr yn 10.5 y cant, tra bod y raddfa marw yn 11.1 y cant. Tyfodd cyfanswm trigolion y sir o ganlyniad i'r nifer cynyddol o bobl a aned y tu allan i Gymru a oedd yn ymgartrefu yma, yn hytrach nag o ganlyniad i brosesau naturiol. Roedd hwn hefyd yn linyn cyfarwydd yn hanes demograffig diweddar Sir Gaerfyrddin. Chwyddo'n raddol ond yn gyson a wnaeth canran y rheini a aned y tu allan i Gymru yn y tri degawd cyntaf ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gan godi tipyn cynt o'r 1970au ymlaen. Erbyn 2011 roedd 24 y cant o boblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi'u geni y tu allan i Gymru. Rhoddwyd sylw mawr yn y cyfryngau mewn blynyddoedd diweddar i'r mewnfudo a fu i Brydain o ddwyrain Ewrop yn benodol, a gwelwyd adlais o hynny i ryw raddau hefyd yn Sir Gaerfyrddin. Cynyddodd y boblogaeth a aned tramor +93.3 y cant mewn cwta deng mlynedd. Serch hynny, dim ond 4.1 y cant o boblogaeth gyfan y sir a gynrychiolai'r mewnfudwyr hyn o dramor. Er i'w nifer codi 3,661 rhwng 2001 a 2011 nid oeddynt mor niferus â'r bobl a aned mewn rhannau eraill o Brydain, a Lloegr yn benodol. Roedd 36,499 o'r rheini'n byw yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2011, ac yn cynrychioli 19.9 y cant o'r boblogaeth, ac er mai +19.5 y cant o ymchwydd a gynrychiolai cynnydd y mewnfudwyr hyn rhwng 2001 a 2011, o ran nifer roedd hwnnw'n 5,967 o drigolion.

1.2 Cyfansymiau a chanrannau sirol


Yn anffodus, roedd stori'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin hefyd yn barhad o thema cyfarwydd – sef crebachu ac encilio. Ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011, 78,048 o siaradwyr Cymraeg a ddychwelwyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin (wedi gostwng o 89,213 ym 1991 a 83,802 yn 2001).

Gostyngiad a fu hefyd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol, ond tra bod cyfanswm siaradwyr Cymraeg Cymru wedi gostwng o 575,730 yn 2001 i 562,016 yn 2011, yr oedd y cyfanswm yn dal tipyn yn uwch na chyfanswm siaradwyr Cymraeg Cymru ym 1991, sef 508,098. Felly er bod 13,714 yn llai o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyfan yn 2011 o gymharu â 2001, yr oedd cynnydd net o hyd o 53,918 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn ystod y cyfnod o ugain mlynedd rhwng 1991 a 2011 (**gw. Tablau**

1.3). Yn Sir Gaerfyrddin, disgyn a wnaeth niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn gyson, gyda cholled net o 11,165 yn ystod yr un cyfnod.

Yn yr un modd, parhau i ostwng a wnâi canrannau'r siaradwyr Cymraeg. Ym 1991, medrai 54.8 y cant o drigolion y sir siarad Cymraeg, ond gostyngodd y ganran i 50.1 y cant o'r boblogaeth erbyn 2001 (**gw. Graff 1.3**) a gostwng eto fyth i 43.9 y cant yn 2011 – y tro cyntaf erioed i ganran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin i ostwng islaw'r hanner, gan olygu fod siaradwyr Cymraeg y sir bellach yn leiafrif mewn ardal a ystyrid yn draddodiadol yn un o gadarnleoedd yr iaith. Er bod canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol hefyd wedi gostwng oddi ar 2001 – gan ddisgyn o 20.5 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011, yr oedd y ganran yn dal i fod yn uwch nag yr ydoedd ym 1991 – sef 18.7 y cant.

Canrannau siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 1891-2011




(gw. hefyd Tabl 1.3 a Graff1.3)

Er bod y rhan fwyaf o siroedd wedi gweld gostyngiad bychan yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ardaloedd yr hen Fro Gymraeg a brofodd y gostyngiad mwyaf – gyda Cheredigion yn gweld gostyngiad o -4.5 y cant a Gwynedd -3.3 y cant. Ond Sir Gaerfyrddin brofodd

y gostyngiad mwyaf o bell ffordd, wrth i'r ganran ddisgyn -6.1 y cant rhwng y ddau gyfrifiad (a -10.9 y cant rhwng 1991 a 2011).

Dylid cofio, serch hynny, mai yn Sir Gaerfyrddin o hyd y ceid y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 o holl awdurdodau unedol Cymru (cymharer gyda Gwynedd: 77,000, Ynys Môn: 38,568, Caerdydd: 36,735 a Cheredigion: 34,964) (**gw. Tabl 1.4**). Unwaith eto, yn wardiau ôl-ddiwydiannol a phoblog Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman y ceid rhai o'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, megis Llan-non (3,262), Gorslas (2,523) a Llandybïe (2,207). Parhâi'r trefi yn ganolfannau o bwys i ddenu'r siaradwyr Cymraeg, megis Caerfyrddin (lle y trigai 5,123 o siaradwyr Cymraeg), Llanelli (5,732), Llandeilo (1,454), Porth Tywyn (1,324) a Rhydaman (1,290) (**gw. Map 1.1**).

Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 2011 (yn ôl nifer)



Er mai fel canolfannau Seisnig yn draddodiadol yr ystyrid y trefi, mae'n amlwg erbyn troad yr unfed ganrif ar hugain fod siaradwyr Cymraeg wedi mudo fwyfwy i'r trefi oherwydd atyniadau megis cyflogaeth, addysg a chyfleusterau – patrwm a ailadroddwyd ar draws Cymru gyfan oddi ar y 1980au, yn enwedig ym mhrofiad Caerdydd.² Er mai lleiafrif ydynt o hyd o ran canran, gan fod cynifer o drigolion yn byw o fewn ffiniau'r trefi mawrion, mae'r siaradwyr Cymraeg hyn yn cynrychioli corff niferus ac arwyddocaol o fewn y trefi – er nad ydynt efallai wedi ymffurfio'n garfan ymwybodol i hyrwyddo'u buddiannau

² Gw. Aitchison a Carter, *Language, Economy and Society*, pp.80-9.

fel grŵp cydnabyddedig. Fodd bynnag, o safbwynt cydlynu polisiâu addysgol, cymdeithasol a diwylliannol, gallai'r ymgasglu trefol hwn fod yn arwyddocaol o safbwynt darpariaeth adnoddau a threfnu gweithgareddau ac y dylid ystyried elfen o dargeddi'r trefi wrth gynllunio'n ieithyddol.

1.3 Y Gymraeg ar lefel Wardiau


Mae'r cyfrifiad yn caniatáu i ni graffu ar gyflwr yr iaith ar lefel wardiau etholiadol a chymunedau. O edrych yn gyntaf ar ddosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar lefel ward yn Sir Gaerfyrddin gwelwn batrymau digalon iawn (**gw. Tabl 1.5 a Map 1.2**). O'r 58 ward etholiadol a ddefnyddiwyd fel ardaloedd rhifo'r cyfrifiad yn 2011, yn 26 ward yn unig y gallai hanner neu ragor o'r boblogaeth siarad Cymraeg. (Yn 2001 yr oedd hanner neu ragor o boblogaeth 35 ward yn gallu siarad Cymraeg). Doedd dim un ward yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2011 lle y gallai dros 70 y cant o'r boblogaeth siarad Cymraeg mwyach, wedi i ganrannau Pontyberem, Llannon a Gorslas yng Nghwm Gwendraeth, a Chwarter Bach yn nwyrain Dyffryn Aman, i gyd ddisgyn o dan y trothwy hwnnw. Yn wir, dim ond mewn 5 ward ar draws y sir i gyd y ceid dros 60 y cant o'r boblogaeth bellach yn gallu siarad Cymraeg (sef y pedwar ward blaenorol a fu dros 70 y cant a ward Penygroes). Serch hynny, lle gellid dweud nôl yn 2001 fod gan bron bob un o wardiau'r Gwendraeth a'r Aman boblogaeth gyda 60 y cant a rhagor yn gallu siarad Cymraeg, llond dwrn yn unig o'r wardiau hynny sy'n parhau felly erbyn heddiw. Ar ben arall y sbectwm gwelir bod llai na 30 y cant o boblogaeth bron pob un ward yn nhref Llanelli erbyn 2011 yn gallu siarad Cymraeg – yr unig ward gyda chanran uwch oedd Bynea ar gyrion dwyreiniol y dref, gyda 31 y cant yn gallu siarad Cymraeg.

Hanes tebyg o golli tir oedd i bob un o drefi'r sir. Gostyngodd canrannau siaradwyr Cymraeg wardiau tref Caerfyrddin i gyd am y tro cyntaf erioed o dan 40 y cant yng Nghyfrifiad 2011. Yn 2001 yr oedd 43 y cant o drigolion Caerfyrddin yn gallu siarad Cymraeg, ond erbyn 2011 roedd y ganran wedi disgyn i 37.6 y cant – sef gwahaniaeth o -5.4 y cant. Bu Caerfyrddin yn ganolfan fasnachol am ganrifoedd, gan ddenu poblogaeth niferus oherwydd y cyfleoedd economaidd ac mae'n debyg fod llwyddiant y dref i ryw raddau wedi cyfrannu at ei Seisnigo fwyfwy mewn degawdau diweddar. Fodd bynnag, oherwydd presenoldeb sawl cyflogwr mawr o fewn y sector cyhoeddus yng Nghaerfyrddin, megis y brifysgol leol, yr ysbyty cyffredinol a phrif swyddfeydd yr awdurdod lleol ei hun, gellid cael dylanwad cadarnhaol iawn ar sefyllfa'r iaith pe byddai'r sefydliadau hynny'n mabwysiadu polisi bwriadus o Gymreigio'r gweithle a phennu cyfran o'u swyddi yn rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

Profiad tebyg a gafwyd ar draws y sir. Gostyngodd canrannau siaradwyr Cymraeg Porth Tywyn o 36.4 y cant i 32.2 y cant (gostyngiad o -4.2 y cant), Llandeilo o 55.1 y cant i 50.3 y cant (gostyngiad o -4.8 y cant), Cydweli o 50.6 y cant i 44.4 y cant (-6.2 y cant), a Llanymddyfri o 47.5 y cant i 40.3 y cant

(-7.2 y cant). Ond y dref a welodd y gostyngiad mwyaf yng nghanrannau ei siaradwyr Cymraeg yn ddi-os rhwng 2001 a 2011 oedd Rhydaman. Yn 2001 gallai 62.1 y cant o boblogaeth ward Rhydaman siarad Cymraeg. Erbyn 2011 roedd y ganran honno wedi disgyn i 49.9 y cant - gwahaniaeth o -12.2 y cant. O holl ardaloedd Sir Gaerfyrddin, ymddengys mai Dyffryn Aman brofodd y colledion mwyaf yn ieithyddol rhwng 2001 a 2011. Yn y saith ward yn ardal datblygu Dyffryn Aman, profwyd gostyngiad o -9.5 y cant yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg – tipyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y sir cyfan. Y dref a'r wardiau cyfagos, ffiniol iddi a brofodd y cwymp mwyaf mewn canrannau siaradwyr – Saron (-16.4 y cant) a welodd y gostyngiad mwyaf o blith holl wardiau'r sir, ond yn ogystal â thref Rhydaman ei hun (-12.2 y cant) gwelwyd gostyngiad hefyd yn Nhycroes (-11.1 y cant), Garnant (-11.0 y cant), Betws (-9.9 y cant), Hendy (-8.2 y cant), Glanamau (-7.8 y cant) a Phontaman (-6.5) – i gyd yn gweld gostyngiad uwch na'r cyfartaledd sirol (-6.2 y cant) yn eu siaradwyr Cymraeg.

Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg 2011 (yn ôl canran) ar lefel ward



Mae'r trefi yn draddodiadol wedi cynnwys canrannau uwch o siaradwyr uniaith Saesneg oherwydd dylanwad masnach a diwydiannaeth, ac mae'r ardaloedd glan-môr, lle bu twristiaeth am genedlaethau yn ffactor o Seisnigo, yn parhau yn 2011 i fod â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig Treflan Talacharn (22.4 y cant). Mae'n siwr bod harddwch naturiol arfordir y sir a'i boblogrwydd wrth ddenu ymwelwyr wedi bod yn ffactor yn Seisnigo pellach

nifer o'r wardiau hyn rhwng 2001 a 2011. Profodd wardiau Llansteffan (48.5 y cant i 44.2 y cant), Llanishmel (55.2 y cant i 50.3 y cant) a Phenbre (36.3 y cant i 31.1 y cant) i gyd ostyngiad pellach yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg oddi ar y cyfrifiad diwethaf. Roedd sawl ardal wledig oddi fewn i'r sir hefyd wedi profi colledion sylweddol o safbwynt canrannau siaradwyr Cymraeg erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain, yn bennaf o ganlyniad i ddirywiad y diwydiant amaethyddol a mudo poblogaeth – allfudo'r genhedlaeth ifanc, Cymraeg ei hiaith, o gefn gwlad, a mewnfudo poblogaeth hŷn, o Loegr yn bennaf ac yn ddi-Gymraeg, i'r ardaloedd hyn yn eu lle. Eisoes erbyn 2001 yr oedd wardiau ym mhen uchaf Dyffryn Tywi, megis Cilycwm a Manordeilo a Salem, a ward Llanboidy ar y ffin gyda Sir Benfro, wedi profi gostyngiad arwyddocaol yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, lledaenodd yr ymdreiddiad Saesneg ymhellach yn yr ardaloedd gwledig rhwng 2001 a 2011. Disgynnodd canrannau siaradwyr Cymraeg ward Cynwyl Gaeo o 58.0 y cant yn 2001 i 46.7 y cant yn 2011 – gwahaniaeth o -11.3 y cant. Yng ngogledd-orllewin y sir yn ward Cenarth, disgynnodd canran y siaradwyr Cymraeg o 60.4 y cant yn 2001 i 48.8 y cant yn 2011 – gwahaniaeth o -11.6 y cant. Tra bu'r ardaloedd gwledig o gwmpas Dyffryn Tywi a Dyffryn Teifi ar un adeg yn asgwrn cefn i'r gymdeithas Gymraeg wledig yn Sir Gaerfyrddin, mae'r ardaloedd hyn bellach yn profi dirywiad iaith yn gynt ac mewn modd fwy dinistriol ond odid unrhyw ran arall o'r sir.


1.4 Y Gymraeg ar lefel Cymunedau

Colli tir, felly, oedd hanes pob un ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2001 a 2011 – ni welwyd *cynnydd* yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn unman. O edrych ar ganlyniadau'r cyfrifiad ar lefel Cymunedau, caniateir cymharu canlyniadau dros gyfnod o ugain mlynedd rhwng 1991 a 2011. (Newidiwyd ffiniau'r wardiau etholiadol ar ôl 1991, sy'n golygu ar lefel ward mai dim ond data 2001 a 2011 y mae modd cymharu) (**gw. Tabl 1.6, Graffiau 1.4 – 1.7, a Mapiau 1.3 – 1.5**). Wrth gymharu data 1991 a 2011 gwelir bod tair cymuned yng nghornel eithaf de-orllewin y sir wedi profi cynnydd bychan yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg, sef Eglwys Gymyn (+5.9 y cant), Pentywyn (+5.7 y cant) a Thalacharn (+2.6 y cant). Mae'n siŵr mai'r system addysg a fu'n bennaf gyfrifol am y cynnydd bychan hwn yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau a Seisnigwyd ers cenedlaethau lawer. Fodd bynnag, dylid cofio mai niferoedd bychain iawn o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y cymunedau hyn ac o ganlyniad mae unrhyw gynnydd yn mynd i edrych yn arwyddocaol. Er enghraifft, 39 siaradwr Cymraeg a drigai ym Mhentywyn ym 1991, tra bod 61 wedi'u cyfrifo yno yn 2011 – sy'n gosod y cynnydd o +5.7 y cant yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg yno yn ei gyddestun. Profodd ambell gymuned arall gynnydd mewn niferoedd siaradwyr Cymraeg hefyd, megis Abergwili (+113), Hendy-gwyn (+56), Manordeilo (+45) a Llanpumsaint (+33). Mae'n debyg fod y cynnydd bychan hwn yn cynrychioli rhywfaint o duedd ymhlith siaradwyr Cymraeg i ymgasglu mewn pentrefi a chymunedau ar gyrion trefi megis Caerfyrddin a Llandeilo. Fodd bynnag,

dyrys iawn yw esbonio patrymau meicro iawn o shifft demograffig fel hyn. Rhwng 1991 a 2001 profwyd cynnydd arwyddocaol yn niferoedd siaradwyr Cymraeg Llanegwad (+91), ond deng mlynedd yn ddiweddarach roedd y nifer wedi disgyn eto (-40). Gall pob math o gatalyddion lleol iawn, megis datblygiad tai, agor adeilad newydd i'r ysgol gynradd, cau ysgol gynradd, colli cyflogwr o bwys, neu golli cyfleusterau cymunedol allweddol megis siop bentref, swyddfa bost neu feddygfa, ddylanwadu'n fawr ar batrymau siaradwyr ar lefel cymuned. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud defnydd llawn o erfynau megis asesiadau impact ieithyddol er mwyn pwyso a mesur yn llawn goblygiadau pob datblygiad ar sefyllfa'r iaith wrth ystyried ceisiadau cynllunio ac wrth lunio polisiau megis Cynlluniau Datblygu Unedol.

Fodd bynnag, i'r cyfeiriad arall yr âi'r iaith ym mwyafrif llethol cymunedau'r sir rhwng 1991 a 2011. O'r 72 cymuned yn Sir Gaerfyrddin, profodd 69 ohonynt ostyngiad yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn yr ugain mlynedd hynny.

Gwahaniaeth mewn canrannau siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 ar lefel cymuned



Y gymuned a brofodd y gostyngiad mwyaf oedd Llanwinio i'r gogledd o San Clêr, a welodd colli 1 o bob 5 o'i siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2011 (disgyn o 67.5 y cant i 46.0 y cant). Profodd 40 cymuned ostyngiad o dros -10 y cant yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg – 12 o'r rheini wedi gweld gostyngiad o fwy na -15 y cant. Mewn gwirionedd 15 yn unig o holl gymunedau'r sir a brofodd gostyngiad is na'r cyfartaledd sirol yng

nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o ugain mlynedd. Mae'r colli a fu mewn niferoedd siaradwyr Cymraeg rhai o'r cymunedau hyn hyd yn oed yn fwy brawychus. Os dethlir y cynnydd bychan a fu yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau megis Llanpumsaint (+30) ac Abergwili (+113), testun braw yw'r gostyngiad arswydus o -1,768 o siaradwyr a fu yn nhref Llanelli rhwng 1991 a 2011, a -1,201 yn rhagor yn Llanelli Wledig. Hefyd o fewn hen ddosbarth Llanelli collwyd -594 o siaradwyr Cymraeg yn Llan-non a -530 yn Llanedi i'r gogledd-ddwyrain o'r dref, a -521 arall yng Nghefn Sidan a -431 yn Nhrimsaran i'r gorllewin o'r dref. Collwyd -633 o siaradwyr Cymraeg yn Rhydaman a -600 yng Nghwmaman, a chollwyd -484 o siaradwyr Cymraeg yn nhref Caerfyrddin rhwng 1991 a 2011.

Er gwaethaf y llygedyn o obaith a gafwyd yn 2001, felly, pan gododd canran y siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol yng Nghymru am y tro cyntaf erioed, gan wrthdroi canrif a mwy o ddirywiad ieithyddol, mae'n amlwg mai parhau i golli tir mae'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt niferoedd siaradwyr a chanrannau siaradwyr. Yn wir, ymddengys fod y dirywiad hwnnw yn cyflymu ac yn gwaethgu, a bod y darlun demograffig yn awgrymu'n gryf fod y Gymraeg yn prysur trengi yn rhai o gymunedau'r sir.

2 Siaradwyr Cymraeg yn Ôl Oed

Elfen ddadlennol iawn o ddata'r cyfrifiad yw dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar draws nifer o grwpiau oedran (**gw. Tabl 2.1 a Graff 2.1**). O fewn siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin yn 2011, gwelir bod canrannau uwch na'r cyfartaledd sirol o blant oed ysgol (3-14 oed), pobl ifainc (16-24 oed) a phobl dros oed ymddeol (65 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg:

Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin fesul Grŵp Oed, 2011

SIARADWYR CYMRAEG (3 oed a throsodd)	Nifer	Canran (%)
3-15	15,514	57.7
16-24	9,040	46.2
25-34	7,073	37.5
35-49	12,881	35.8
50-64	14,910	39.1
65-74	9,209	45.3
75-84	6,472	51.2
85+	2,949	56.9
CYFANSWM	78,048	43.9


Hyd at y 1970au roedd 8 o bob deg person yn Sir Gaerfyrddin oedd yn ganol oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg.³ Fodd bynnag, gostyngodd

³ Am drafodaeth ar gyplysu iaith gyda'r genhedlaeth hŷn, gw. Brinley Thomas 'Accounting for Language Shift in a South Wales Mining Community', *Cardiff Working Papers in Linguistics*, 5, 1987, 55-100.

canrannau siaradwyr Cymraeg y grŵp oed hwn ar raddfa cynt ym mhob cyfrifiad oddi ar hynny. Ers 1981 bu'r sir yn colli bron 8 y cant o'i siaradwyr Cymraeg o blith y boblogaeth 65 oed a throsodd bob degawd, ac roedd marw'r genhedlaeth hŷn yn cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol yng ngostyngiad canrannau siaradwyr Cymraeg y sir cyfan fesul cyfrifiad. Yn yr un modd gostyngodd canran siaradwyr Cymraeg oed ymddeol Sir Gaerfyrddin o 59.0 y cant i 51.1 y cant rhwng 2001 a 2011 – sef gwahaniaeth o -7.9 y cant. Fodd bynnag, gan fod y bwlch bellach rhwng canran y grŵp oed hwn a'r cyfartaledd sirol yn prysur cau, mae'n debyg na fydd prosesau naturiol o newid demograffig – geni a marw – yn dylanwadu mewn ffordd mor ddramatig ar ganrannau'r sir cyfan yng nghyfrifiadau'r dyfodol.

Mwy gobeithiol yw'r ffaith fod y dirywiad cyson a fu dros y ganrif a aeth heibio yng nghanrannau'r genhedlaeth iau a siaradai Gymraeg wedi cael ei wrthdroi (**gw. Graffiau 2.2 – 2.4**). Nôl ym 1921 gallai 8 o bob deg person yn Sir Gaerfyrddin rhwng 3 a 15 oed siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gostwng yn raddol ond yn gyson a wnaeth y canrannau hynny nes cyrraedd isafbwynt ym 1981 pan oedd y ganran wedi gostwng i 47.0 y cant. Roedd hi'n amlwg fod plant y sir wedi bod yn troi eu cefnau ar y Gymraeg, neu'n hytrach, fod fwyfwy o rieni wedi dewis peidio â magu eu plant yn Gymraeg, am genhedlaeth a mwy, a bod dyfodol y Gymraeg yn gwegian yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, trowyd cornel ym 1991 pan gododd canran y siaradwyr Cymraeg 3-15 oed i 60.4 y cant.

Gallu ieithyddol yn ôl oed, Sir Gaerfyrddin 1921-2011



Yn anffodus, ni lwyddwyd i gynnal y cynnydd hwnnw a llithro ychydig a wnaeth y ganran hon yn y ddau gyfrifiad a ddilynodd – 58.2 y cant yn 2001 a

57.7 y cant yn 2011, ond o leiaf yr arafodd y dirywiad carlamus a nodweddodd cyfrifiadau'r hanner canrif cynt a sefydlogwyd rhywfaint ar y canrannau.

Tystia'r canlyniadau hyn i lwyddiant y system addysg yn Cymreigio plant y sir, patrwm sydd yn cael ei ail-adrodd mewn rhannau eraill o'r wlad lle mae mynediad at addysg ddwyieithog wedi llwyddo creu siaradwyr newydd ar gyfer y Gymraeg na fyddent fel arall wedi cael mynediad iddi. Mae addysg wedi profi'n allweddol bwysig i hynt yr iaith ar draws Cymru gyfan, ac wedi llwyddo gwrthdroi'r broses o golli tir mewn rhai rhannau o'r wlad a Seisnigwyd ers cenedlaethau i stori o ennill tir a chynnydd mewn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn ymhlith y boblogaeth oed ysgol yng Nghymru y ceir y niferoedd a'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob grŵp oed:

Siaradwyr Cymraeg Cymru, fesul Grŵp Oed 2011

SIARADWYR CYMRAEG (3 oed a throsodd)	Nifer	Canran (%)
3-15	168,750	37.6
16-24	80,909	21.6
25-34	57,158	15.9
35-49	85,050	13.8
50-64	79,217	13.3
65+	90,932	16.2
CYFANSWM	562,016	

Mae'n werth edrych yn agosach ar y gallu i siarad Cymraeg oddi fewn i'r cyfnod hwn. Yn y tabl sy'n dilyn cymherir y gallu i siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 ar gyfer plant 3-4 oed, 5-9 oed a 10-14 oed:

Siaradwyr Cymraeg 3-15 oed Sir Gaerfyrddin, 2001 a 2011

SIARADWYR CYMRAEG	2001		2011	
	Nifer	Canran (%)	Nifer	Canran (%)
3-4	1,651	41.7	1,901	45.5
5-9	6,444	60.5	5,814	60.0
10-14	6,889	61.2	6,392	60.1
3-15 OED	16,390	58.2	15,514	57.7

Dengys data 2011 yn glir fod canran uwch o blant 3-4 oed Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg nag oedd yn 2001 – yr unig grŵp oed lle y digwyddodd hynny. Yn wir, dyma'r uchaf i ganran siaradwyr Cymraeg 3-4 oed y sir fod oddi ar 1961 (pan ddychwelwyd 51.9 y cant o'r grŵp oed hwn fel siaradwyr Cymraeg). Mae'r ystadegyn hwn yn tystio i lwyddiant ymgyrchoedd megis TWF yn ceisio darbwylo rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog, a gan fod dyfodol yr iaith yn llythrennol yn dibynnu ar y genhedlaeth nesaf o siaradwyr, gobeithio fod yr ymchwydd bychan ond arwyddocaol hwn yn argoel pellach

fod y Gymraeg yn araf troi cornel. Noder bod y ganran ar gyfer siaradwyr Cymraeg 3-4 oed, sef oed cyn cyrraedd ysgol, yn uwch na'r ganran ar gyfer siaradwyr 25-34 oed (37.5 y cant), sef y grŵp oed sydd fwyaf tebyg o fagu plant – prawf o ymrwymiad rhieni nad sy'n gallu siarad Cymraeg eu hunain i fagu eu plant yn ddwyieithog. Erbyn i'w plant gyrraedd yr ysgol, felly, hyderir y bydd awydd ac ymrwymiad y rhieni hyn i fagu eu plant i siarad Cymraeg yn cael ei atgyfnerthu gan addysg ffurfiol. (Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cofio mai rhieni sy'n ateb ar ran eu plant wrth lenwi ffurflen y cyfrifiad a bosib bod elfen o orliwio gallu ieithyddol plentyn 3-4 oed yn digwydd a bod y canrannau o ganlyniad yn rhy obeithiol ac mai doeth fyddai peidio â bod yn hunanfodlon am y data hwn).

Mae'r data ar gyfer y cyfnod ysgol hefyd yn obeithiol, gan fod 6 o bob 10 plentyn 5-9 a 10-14 oed wedi'u dychwelyd fel siaradwyr Cymraeg – canrannau tebyg iawn i rai 2001, sy'n awgrymu fod y system addysg yn llwyddo cynnal y canrannau siaradwyr Cymraeg er gwaethaf y dirywiad amlwg a fu ym mhob grŵp oed arall ar ôl cyfnod ysgol. Fodd bynnag, yn wyneb y ffaith fod canrannau Sir Gaerfyrddin o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn dal i ostwng yn raddol, ac o gofio mai nod polisi addysg y sir yw sicrhau fod pob plentyn yn gyfan gwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw adael yr ysgol, nid oes dadl nad oes llawer o waith eto i'w wneud.

Dylid hefyd gochel rhag dibynnu'n llwyr ar y system addysg i wyrdroi dirywiad y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Er bod canrannau uwch na'r cyfartaledd sirol o blant 3-15 yn siarad Cymraeg, gostwng a wna'r ganran erbyn y grŵp oed nesaf, sef 16-24. Er bod hwn eto yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd sirol (46.2 y cant), mae'n is na chanran 2001 (47.6 y cant) a 1991 (52.5 y cant) (**gw. Graffiau 2.5 – 2.6**). Yn anffodus, nid yw'n ymddangos fod yr ymchwydd canrannol a brofir yn y grŵp oed ysgol yn cael ei gynnal tu hwnt i ddyddiau ysgol. Roedd 58.2 y cant o drigolion 3-15 oed Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg yn 2001, ond yn 2011 dim ond 46.2 y cant o'r trigolion hyn (a fyddai'n 16-24 erbyn hynny), oedd yn gallu siarad Cymraeg – gwahaniaeth sylweddol iawn o -12.0 y cant. Wrth gwrs, nid oedd bob un o'r bobl ifainc hynny a gyfrifwyd yn 2001 yn dal i fyw yn Sir Gaerfyrddin erbyn 2011 – tra bod trigolion 3-15 y sir yn rhifo dros 28,000 yn 2001, roedd trigolion 16-24 oed y sir yn 2011 yn rhifo ychydig dros 19,500, Mae'n amlwg, felly, fod nifer sylweddol o'n pobl ifainc yn gadael Sir Gaerfyrddin ar ôl gorffen yn yr ysgol er mwyn mynd i'r brifysgol neu er mwyn chwilio am waith, ac mae'n amlwg fod canran arwyddocaol o'r rheini yn siaradwyr Cymraeg. Ond mae'r ystadegau hefyd yn awgrymu'n gryf iawn nad yw'r system addysg yn Sir Gaerfyrddin yn creu siaradwyr Cymraeg am oes a bod llawer o'n pobl ifainc ni'n dal i droi cefn ar y Gymraeg wedi iddynt orffen addysg ffurfiol.


Siomedig hefyd yw'r ffaith mai yn y grŵp oed 25-34 (37.5 y cant) y ceid y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sef y grŵp oed sydd fwyaf tebyg o fagu plant. Roedd y ganran hon gryn dipyn yn is yn 2011 na 2001 (42.4 y cant), ac yn sylweddol is na'r ganran am siaradwyr Cymraeg 16-24 oed yn 2001 (47.6 y cant), felly os taw'r un bobl oedd llawer o'r rhain

ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yna roedd cyfran sylweddol iawn ohonynt wedi dewis troi eu cefnau ar yr iaith am ryw reswm. Yn yr un modd, gostwng a wnaeth canran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oed eraill hefyd rhwng 2001 a 2011.

Tra y siaredid Cymraeg gan 47.9 y cant o drigolion 35-49 oed y sir yn 2001, gostyngodd y ganran honno i 35.8 y cant yn 2011, a gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg 50-64 oed o 55.6 y cant yn 2001 i 39.1 y cant yn 2011 – gostyngiad brawychus o -16.5 y cant mewn cwta deng mlynedd. O edrych ar y gwahaniaeth canrannol ar gyfer pob grŵp ar ôl 35 oed, gwelir y bu -13.4 y cant o ostyngiad, sy'n brawf pellach o bwysigrwydd y sefydlogi a chynnydd bychan a fu yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg iau. Yn wir, oni bai am lwyddiant y system addysg i gynhyrchu siaradwyr newydd ymhlith y genhedlaeth iau fe fyddai'r sefyllfa'n ddu iawn ar y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin erbyn heddiw. Y cam nesaf yw sicrhau bod y cyfle gan y genhedlaeth honno i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl dyddiau addysg ffurfiol.

Diddorol hefyd yw sylwi ar ymhle y trigai'r canrannau uchaf o'r siaradwyr Cymraeg oed ysgol ar draws y sir (**gw. Tabl 2.2 a Map 2.1**).

Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg 3-15 oed, Sir Gaerfyrddin 2011



Mae'r ystadegau yn fras iawn yn adlewyrchu dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg i gyd ar draws y sir. Er enghraifft, unwaith eto gwelir mai yn nosbarth Llanelli y ceid y ganran isaf o blant 3-15 oed a oedd yn siarad

Cymraeg. Fodd bynnag, ymddengys bod y polisi addysg yn llwyddo'n dda mewn sawl man ar draws y sir, megis yng nghanol Cwm Gwendraeth (Penygroes: 83.6 y cant, Pontyberem: 82.5 y cant, Llanddarog: 81.6 y cant a Gorslas: 81.5 y cant), yr ardal i'r dwyrain o dref Caerfyrddin (Llanegwad: 80.9 y cant), Llangeler yng ngogledd y sir (80.9 y cant), Trelech yn y gorllewin (80.2 y cant) a de Dinefwr (Cwarter Bach: 85.2 y cant a Llangadog: 83.6 y cant).

3.1 Aelwydydd lle siaredir Cymraeg

Saif diffyg trosglwyddiad iaith rhwng y cenedlaethau yn broblem affwysol i'r Gymraeg mewn rhai rhannau o'r sir, er bod y sefyllfa mewn rhannau eraill yn amlwg wedi gwella yn dilyn ymyrraeth cynlluniau megis TWF. Yn ôl ystadegau 2011, trigai 4,175 o blant rhwng 3 a 4 yn Sir Gâr ac yr oedd 45.5 y cant o'r rheini yn gallu siarad Cymraeg. Trigai 42.6 y cant o'r plant 3-4 oed hyn a siaradai Cymraeg mewn cartrefi lle'r oedd dau oedolyn (yn achos cartrefi cyplau) neu un oedolyn (yn achos cartrefi un rhiant) yn gallu siarad Cymraeg.⁴ Dengys patrymau'r gorffennol yn Sir Gaerfyrddin a rhannau eraill o Gymru fod cyfradd trosglwyddiad iaith yn uwch ar aelwydydd lle bydd y ddau riant yn siarad Cymraeg â'r plant na phan mai un rhiant yn unig a fedr siarad Cymraeg. Dengys ffigurau 2011 mai 25.4 y cant yn unig o aelwydydd Sir Gaerfyrddin oedd yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith (o gymharu â 29.4 y cant yn 2001, oedd eto'n gymharol isel, ond 4 y cant yn uwch nag yr ydoedd ddeng mlynedd yn ddiweddarach). Yr oedd 23.6 y cant o aelwydydd y sir yn rhai 'cymysg' eu hiaith (h.y. lle ceid un oedolyn yn siarad Cymraeg, tra bod yr oedolyn neu oedolion eraill ar yr aelwyd yn ddi-Gymraeg), ac roedd 51 y cant o aelwydydd y sir yn rhai ddi-Gymraeg (o gymharu â 42.6 y cant yn 2001). Pan sonnir am aelwydydd di-Gymraeg, gyda llaw, golygir bod holl oedolion yr aelwydydd hynny'n ddi-Gymraeg, nid o reidrwydd bod y plant yn ddi-Gymraeg hefyd.

O edrych ar ddosbarthiad yr aelwydydd hyn o safbwynt iaith y rhieni ar draws y sir, dylid nodi i gychwyn nad oedd un ward ledled y sir lle'r oedd 65 y cant neu ragor o'r aelwydydd yn aelwydydd Cymraeg eu hiaith (**gw. Tabl 3.1 a Map 3.1**). Yn wir, 5 ward yn unig oedd yn Sir Gâr erbyn 2001 lle'r oedd dros hanner yr aelwydydd yn Gymraeg eu hiaith. Tueddai'r crynodiadau uchaf o aelwydydd Cymraeg eu hiaith grynhoi o gwmpas tair ardal yn benodol, sef Llangadog, yr ardal rhwng Pontyberem a Llangyndeyrn yn ochrau dwyreiniol Cwm Gwendraeth a pharthau mwy gogleddol Dyffryn Teifi rhwng Llanfihangel-ar-arth a Llanybydder. Ceid dwy ardal eilradd gyda chrynodiadau sylweddol o aelwydydd Cymraeg hefyd, sef mewn coridor i'r gogledd o dref Caerfyrddin trwy Gynwyl Elfed a Llangeler, a rhai wardiau gwasgaredig yn Ninefwr – yn bennaf Glanamau, Cwarter Bach, Penygroes a Llanfihangel Aberbythych i'r gogledd.

⁴ Seilir yr holl ystadegau a'r drafodaeth sy'n dilyn am 'aelwydydd' ar breswylfeydd yn Sir Gaerfyrddin lle trigai plant 3 i 4 oed ar ddiwrnod y cyfrifiad, 27 Mawrth 2011.


Ychydig yn anos yw adnabod patrymau yn nosbarthiad yr aelwydydd cymysg eu hiaith gan nad oes modd esbonio tueddiadau ieithyddol aelwydydd i unrhyw ffactorau daearyddol, cymdeithasol na demograffig neilltuol (**gw. Map 3.2**). Mae'n bosib, wrth gwrs, bod unigolion Cymraeg eu hiaith yn fwy tebygol o ddod o hyd i gymheiriaid Cymraeg mewn cymunedau lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Ond yn yr oes hon pan ddaw pobl i gysylltiad â llawer fwy o unigolion o du allan i'w cymunedau daearyddol lleol, eu rhwydweithiau cymdeithasol arferol, a'u peuoedd gwaith ac addysgol traddodiadol, dônt hefyd i gysylltiad ag unigolion o gefndiroedd ieithyddol gwahanol. O edrych ar ddosbarthiad yr aelwydydd di-Gymraeg, fodd bynnag, mae'n amlwg iawn fod y crynodiadau mwyaf o aelwydydd lle nad oedd un rhiant a fedr siarad Cymraeg (65 y cant a rhagor) yn wardiau Llanelli drefol ac ychydig i'r gorllewin o'r dref ym Mhorth Tywyn a Phenbre. Fodd bynnag, ymddengys fod ward deheuol tref Caerfyrddin hefyd yn profi prosesau Seisnigo arwyddocaol gan fod 69.2 y cant o blant 3-4 oed y ward hwnnw hefyd yn cael eu magu ar aelwydydd lle na siaredir Cymraeg gan unrhyw riant (**gw. Map 3.3**). Ceid crynodiadau sylweddol hefyd (dros 50 y cant yr aelwydydd yn ddi-Gymraeg) ar hyd ffin ac arfordir gorllewinol y sir – Llanboidy (52.5 y cant), Hendy-gwyn (62.9 y cant), Treflan Talacharn (55.8 y cant) a Llansteffan (56.7 y cant); yng Nghenarth (56.1 y cant); ac yn ward Cynwyl Gaeo (52.0 y cant) ym mhen uchaf mwyaf gwledig Dinefwr, yn bennaf o ganlyniad i fewnfudiad teuluoedd di-Gymraeg o Loegr.

3.2 Trosglwyddiad iaith yn y cartref

Sylwir ar batrymau diddorol iawn o edrych ar ganrannau'r plant 3-4 oed ar draws y sir a gofnodwyd fel rhai a fedrai siarad Cymraeg, pan edrychir hefyd ar gyfansoddiad ieithyddol y teulu. Ar gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin, gallai 76.7 y cant o blant 3-4 oed a oedd yn byw ar aelwydydd Cymraeg eu hiaith siarad Cymraeg – sef cynnydd bychan oddi ar 2001 pan mai 72.9 y cant o blant 3-4 oed oedd yn byw ar aelwyd Gymraeg a allai siarad Cymraeg. Golyga hynny bod bron chwarter y rheini ar aelwydydd Cymraeg yn dewis magu eu plant yn Saesneg (**gw. Tablau 3.2 a 3.3 a Graffiau 3.1 a 3.2**). Pe edrychid yn fanylach ar allu ieithyddol y plant hyn yn ôl strwythur y cartref, gwelid bod y plant hynny a fegir gan ddau oedolyn Cymraeg yn llawer fwy tebygol o fedru siarad Cymraeg (85.3 y cant) na'r rheini a fegir gan riant sengl Cymraeg (58.8 y cant). O edrych ar raddfeydd trosglwyddiad iaith ar draws y sir, gwelir bod y mwyaf o wardiau wedi cofnodi cyfradd drosglwyddo o 75 y cant neu'n uwch, a hynny dros y rhan fwyaf o'r sir – o'r ardaloedd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghwm Gwendraeth i'r rheini â'r canrannau isaf megis Talacharn (**gw. Map 3.4**). Mae'n amlwg, felly, bod cynlluniau megis TWF wedi profi llwyddiant wrth ddarbwylllo rhieni Cymraeg i fagu eu plant yn Gymraeg mewn sawl ardal. Serch hynny, mewn tri ward yn unig y cofnodwyd trosglwyddiad iaith cyflawn (h.y. 100 y cant) ar aelwydydd Cymraeg, ac roedd nifer o wardiau yn y sir a oedd eto yn dangos canrannau tipyn yn is o drosglwyddiad iaith – yn enwedig o gwmpas y trefi – Caerfyrddin,

Llanelli a Rhydaman. Ar hanner aelwydydd Cymraeg ward deheuol tref Caerfyrddin yn unig (50 y cant) y megir y plant yn Gymraeg, a dim ond 56.5 y cant o blant 3-4 oed ward gogledd tref Caerfyrddin sy'n gallu siarad Cymraeg er y'u megir ar aelwyd lle y gall y rheini siarad Cymraeg (unai'r ddau riant yn achos cartrefi cwpwl, neu'r unig riant yn achos cartrefi rhiant sengl). Yn ardal Dyffryn Aman y wardiau â'r canrannau isaf oedd Glanamau (50 y cant) a Llandybïe (60 y cant), tra yn nhref Llanelli disgynnai'r ganran yn is na 60 y cant mewn 7 ward – gyda'r isaf ohonyn nhw i gyd yn Felinfoel a Llwynhendy lle mae traean yn unig o aelwydydd Cymraeg â phlant 3-4 oed sy'n magu'r plant hynny yn Gymraeg.

Trosglwyddiad iaith yn y cartref, Sir Gaerfyrddin 2011



Mae'n anodd gwybod heb ragor o ymchwil beth sy'n gyfrifol am hyn – a ph'un ai hunanfodlonrwydd a diffyg sylweddoliad ymhlith y rhieni hyn fod y Gymraeg ar drai a bod ganddyn nhw rôl i'w chwarae yn cynnal yr iaith trwy fagu eu plant yn Gymraeg, neu a ydyw o ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a bwriadol i ollwng yr iaith a magu eu plant yn Saesneg. Rhaid, wrth gwrs, fod yn wyladwrus o'r canrannau gan y'u seiliwyd ar niferoedd mor fychan (e.e. 40 o blant 3-4 oed i gyd a gyfrifwyd yn Nyffryn y Swisdir a dim ond 4 o'r rheini a fegir ar aelwyd Gymraeg. Fodd bynnag, o'r 4 hynny gall bob un siarad

Cymraeg gyda'r canlyniad fod y gyfradd trosglwyddo yn 100 y cant). Yr hyn sydd yn sicr, fodd bynnag, yw bod y canrannau hyn, er eu seilio ar niferoedd bychain, yn rhoi darlun i ni o batrymau tueddiadau rhieni ar draws y sir ac mae'n amlwg ei bod yn anos i rieni Cymraeg eu hiaith fagu eu plant yn Gymraeg pan bod canrannau siaradwyr Cymraeg y gymuned o'u cwrpas yn isel iawn. Oherwydd natur rhwydweithiau cymdeithasol, adnoddau dynol ac arian, brwdfrydedd a gweithgarwch gwirfoddolwyr, ac yn y blaen, mae'n naturiol nad ydyw ymgyrch TWF wedi cael yr un dylanwad ymhob gymuned. O ganlyniad, mae'n bwysig bod cynllunwyr iaith yn y sir yn arfarnu'r angen am ymyrraeth a gweithredu rhagweithiol yn gyson ac yn cyfeirio'r adnoddau prin a neilltuwyd at eu cyfer yn ofalus ac yn effeithiol.

Ceir patrymau digon tebyg i'r aelwydydd cymysg eu hiaith hefyd, er bod y gyfradd drosglwyddo cryn dipyn yn is pan mai un rhiant yn unig a fedr siarad Cymraeg. Ar gyfartaledd, siaredir Cymraeg gan 57.7 y cant o blant 3-4 oed y sir sydd yn byw mewn teuluoedd dau riant lle mai un o'r oedolion yn unig sy'n siarad Cymraeg – sydd yn uwch na'r cyfartaledd cyfatebol yn 2001, sef 49.6 y cant. Diddorol yw nodi bod fwy o gynnydd yng nghyfradd drosglwyddo aelwydydd cymysg y sir na'r rhai Cymraeg eu hiaith rhwng y ddau gyfrifiad, gan godi'r cwestiwn p'un a ydyw ymgyrch TWF wedi canolbwyntio ei negeseuon am fanteision magu plant yn ddwyieithog ar gyplau lle mae un o'r rhieni yn unig sy'n gallu siarad Cymraeg, gan gymryd yn ganiataol yn gwbl ddealladwy y byddai dau riant sy'n gallu siarad Cymraeg yn siŵr o fagu eu plant yn eu mamiaith. Nid yw hynny'n dilyn, serch hynny, gan mai hanner plant 3-4 oed wardiau Bynea a'r Glyn a siaradai Cymraeg er bod eu dau riant yn gallu siarad Cymraeg. (Yn wardiau Llwynhendy a Thyisha nid oedd un o'r plant 3-4 oed a fagwyd ar aelwyd lle gallai'r ddau riant siarad Cymraeg, siarad iaith eu rhieni). Yn gyffredinol, serch hynny, mae'n amlwg felly fod y gyfradd drosglwyddo yn disgyn o'r tri-chwarter i ychydig dros yr hanner pan mai un rhiant yn hytrach na'r ddau riant a fedr siarad Cymraeg. O edrych yn fanylach ar ba ddylanwad a gaiff iaith y rhiant ar y plant hyn, gwelwn fod patrymau trosglwyddo ar aelwydydd cymysg eu hiaith yn amrywio'n sylweddol yn ôl pa riant a all siarad Cymraeg. Ar aelwydydd cymysg, magwyd 61.4 y cant o'r plant yn Gymraeg pan mai'r fam yn unig a allai siarad Cymraeg. Ond pan mai'r tad oedd yr unig riant a allai siarad Cymraeg, disgynnodd y gyfradd drosglwyddo i 51.2 y cant – dros 10 pwynt canran yn is.

Amrywiau'r sefyllfa ar lawr gwlad yn sylweddol, ac anodd yw tynnu unrhyw gasgliadau o safbwynt patrymau pan fo'r canrannau yn ymddangos mor anghyson (**gw. Map 3.5**). Ceid cyfraddau trosglwyddiad uchel iawn ymhlith aelwydydd cymysg wardiau Llanboidy, Llanfihangel Aberbythych a'r Glyn (100 y cant). Fodd bynnag, mae rhywbeth rhyfedd iawn ar waith bod y cyfradd trosglwyddo yn y wardiau hynny yn uwch ar aelwydydd cymysg eu hiaith na'r aelwydydd Cymraeg (lle cofnodwyd cyfraddau trosglwyddo o 85.7 y cant, 70.6 y cant a 69.2 y cant yn ôl eu trefn). Unwaith eto, rhaid gofalu rhag niferoedd bychain yn camliwio'r ystadegau (gan fod llai na 10 plentyn dan sylw yn y 3 ward hynny). Fodd bynnag, pair rhai ardaloedd gryn bryder parthed y diffyg

trosglwyddiad iaith unwaith eto, yn enwedig de tref Caerfyrddin eto fyth (16.7 y cant), ward gorllewin y dref (35.3 y cant) a Llansteffan i'r de o'r dre (20 y cant); wardiau Lliedi (27.3 y cant), Cydweli (31.3 y cant) a Dafen (38.1 y cant) yn Llanelli; a Chynwyl Gaeo eto fyth yng ngogledd Dinefwr (33.3 y cant). Anos gwrthsefyll dylanwadau Saesneg pan mai un rhiant yn unig a fedr siarad Cymraeg, wrth gwrs, sydd yn golygu fod fwy o ddibyniaeth ar y gyfundrefn addysg i gefnogi ac ategu'r Gymraeg a ddysgir ar yr aelwyd.

O edrych ar batrymau trosglwyddiad iaith yr aelwydydd di-Gymraeg, dylid nodi bod rhai wardiau wedi dangos canrannau cymharol uchel o blant 3 i 4 oed yn gallu siarad Cymraeg er nad oedd un o'r rhieni yn gallu siarad Cymraeg (**gw. Map 3.6**) – e.e. Abergwili (66.7 y cant), Llanegwad (58.8 y cant), Cwarter Bach (58.3 y cant), Betws (56.6 y cant), Trelech (53.3 y cant) a Phenygroes (52 y cant). Gall hyn fod o ganlyniad i ddehongliad yr atebwyr o gwestiwn y cyfrifiad a'u hasesiad o'u gallu ieithyddol eu hunain a'u plant, neu fe all, wrth gwrs, adlewyrchu'r ffaith fod teulu estynedig gan y plant hyn sydd yn siarad Cymraeg ac yn helpu gyda'u magwraeth (ac felly eu datblygiad ieithyddol), a/neu fodolaeth cylchoedd meithrin, grwpiau Ti a Fi, neu wasanaethau gofal plant dwyieithog yn yr ardal. Mae'n sicr bod angen parhau i gefnogi ymgyrchoedd megis TWF er mwyn darbwyllo rhieni o fanteision magu eu plant yn ddwyieithog, a sicrhau bod peirianwaith mewn lle o oed meithrin hyd at ddiwedd gyrfa ysgol i gefnogi ac ategu ymdrechion y rhieni boed trwy hyfforddi gofalywyr plant dwyieithog, cefnogi a hyrwyddo cylchoedd meithrin dwyieithog, trefnu gweithgareddau dwyieithog trwy'r mentrau iaith ac asiantaethau eraill, a chryfhau polisi addysg ddwyieithog y sir a'i weithrediad effeithiol yn yr ysgolion.

4 Siaradwyr Cymraeg yn ôl Sgiliau Llafar-Llythrennedd

Yn ogystal â gwybodaeth am niferoedd siaradwyr Cymraeg, mae'r cyfrifiad hefyd wedi bod yn ffynhonnell werthfawr iawn o wybodaeth oddi ar 1971 am sgiliau iaith y trigolion – o ran eu gallu yn ogystal i ddarllen, ysgrifennu ac am y tro cyntaf yn 2001, ddeall Cymraeg llafar yn unig (**gw. Tabl 4.1** am ystadegau llawn ar holl sgiliau trigolion Sir Gaerfyrddin y 2011).

Wrth gwrs, hyd at 1981 gwahaniaethwyd rhwng y siaradwyr uniaith Gymraeg a'r siaradwyr Cymraeg hynny a fedrai siarad Saesneg yn ogystal. Fodd bynnag, erbyn cyfrifiad 1991 yr oedd y Cofrestrydd Cyffredinol wedi penderfynu nad oedd unrhyw Gymry uniaith yn bodoli mwyach (neu ddim mewn unrhyw niferoedd arwyddocaol, o leiaf) a gollyngwyd y cwestiwn. Dengys data'r cyfrifiadau cynt mor sydyn y trodd cynifer o Gymry uniaith yn Gymry dwyieithog yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, nes eu bod erbyn 1971 yn cynrychioli lleiafrif bychan iawn o'r boblogaeth. Fodd bynnag, yr oedd nifer o ysgolheigion yn y gorffennol wedi defnyddio'r Cymry uniaith fel modd o adnabod ardaloedd o drawsnewid ieithyddol, gan weld y broses o newid o fod yn uniaith Gymraeg i fod yn ddwyieithog fel arwydd o shifft iaith ar

waith. Cyflymaf oll y byddai'r shifft hwn yn digwydd, mwyaf oll y perygl y byddai'r shifft yn parhau o fod yn ddwyieithog i fod yn uniaith Saesneg.⁵

Siaradwyr Uniaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin, 1891–2011

SIARADWYR UNIAITH GYMRAEG (3 oed a throsodd)	Nifer	Canran (%)
1891	63,345	56.2
1901	44,901	35.6
1911	30,705	20.5
1921	27,063	16.6
1931	15,728	9.2
1951	7,302	4.4
1961	3,976	2.5
1971	4,500	2.9
1981	3,211	2.1
1991	-	0.0
2001	-	0.0
2011	-	0.0


Erbyn hyn, y mesur gorau sydd gennym o gyflwr yr iaith yw cymhwysedd y siaradwyr ar draws ystod o sgiliau ieithyddol penodol. Yn 2001, yr oedd 12,085 o drigolion Sir Gaerfyrddin yn gallu siarad Cymraeg, ond heb fod yn gallu darllen nac ysgrifennu'r iaith (sef 7.2 y cant o'r boblogaeth gyfan dros 3 oed). Er bod cyfran o'r unigolion hyn yn blant ifainc ac heb ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg na'r Saesneg eto, mae'n amlwg fod y rhain hefyd yn cynnwys nifer o bobl hŷn sydd er yn siarad Cymraeg, yn methu darllen nac ysgrifennu yn yr iaith. Erbyn 2011 roedd y nifer hwnnw wedi gostwng i 11,919 (sef 6.7 y cant o'r boblogaeth), ond mae'n bosib fod hynny o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol yn niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn hytrach nag arwydd fod y bwlch sgiliau yn cau'n raddol. Sylwodd Aitchison a Carter yn eu hastudiaeth o ganlyniadau iaith 2001 fod canran y rheini a siaradai Gymraeg yn unig yn uwch o lawer yn Sir Gaerfyrddin na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru (2.8 y cant), ac erys yr un peth yn wir yn 2011 (pan oedd y cyfartaledd cenedlaethol yn 2.7 y cant).⁶ Yn wir, ymddengys bod y bwlch llafar-llythrennedd yn fwy nodedig yn yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol na'r ardaloedd eraill o Gymru, a bod corff sylweddol (ac uwch na'r disgwyl) o drigolion o fewn Sir Gaerfyrddin, Gwynedd (5.8 y cant) ac Ynys Môn (7.0 y cant) yn enwedig, sydd â gfael digon elfennol ar yr iaith. Mewn rhannau eraill o'r hen Fro Gymraeg, ceid cyfatebiaeth sicrach rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r rheini sydd yn llythrennog yn yr iaith.

⁵ Gweler, er enghraifft, H. L. Humphreys (1979: 89) a N. Denison, 'Language Death or Language Suicide', *Linguistics*, 191 (1977), 13-22.

⁶ John Aitchison and Harold Carter, *Spreading the Word: The Welsh Language 2001* (Talybont, 2004), pp.97-106.

O edrych ar y sefyllfa meicro ar draws Sir Gaerfyrddin, noder bod pob ward wedi dychwelyd canrannau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o drigolion sy'n gallu siarad Cymraeg, ond heb fod yn gallu ei darllen na'i hysgrifennu (**gw. Tabl 4.2 a Map 4.2**). Yn yr ardaloedd gwledig y ceid y canrannau isaf tra mai yn y wardiau trefol (yn enwedig yn ardal Dyffryn Aman, e.e. Rhydaman: 10.1 y cant, Llandybie: 10.6 y cant, a Glanamau: 11.1 y cant) y ceid y canrannau uchaf o drigolion Cymraeg eu hiaith a fedrai ei siarad yn unig.

Bwlch llafar-llythrennedd, Sir Gaerfyrddin 2011



Trwy berthnasu'r trigolion hynny a fedr siarad y Gymraeg yn unig i gyfanswm y rheini sydd â rhyw wybodaeth o'r Gymraeg (h.y. y rheini sydd ag un neu fwy o'r sgiliau cydnabyddedig – deall, siarad, darllen, ysgrifennu), gwelwn mai'r un fath o ddarlun sy'n amlygu'i hun. Yn Sir Gaerfyrddin gyfan, 11.5 y cant o'r rheini sydd â rhyw wybodaeth o'r Gymraeg a fedr ei siarad yn unig o gymharu â chyfartaledd o 10.2 y cant ar draws Cymru. Unwaith eto, mae hyn yn cymharu'n anffafriol gyda'r ardaloedd eraill yn yr hen Fro Gymraeg, lle mae cyfartaledd uwch o siaradwyr yr iaith hefyd yn gallu ei hysgrifennu a'i darllen (megis Gwynedd: 7.9 y cant a Cheredigion: 8.5 y cant.) Ymdebyga canrannau Sir Gâr yn fwy i siroedd eraill sydd mewn cyfnod o drawsnewid ieithyddol rhwng cadarnleoedd yr iaith a'r ardaloedd Seisnig yn y de ddwyrain (cymharer gyda Sir Benfro: 11.6 y cant; Powys: 10.9 y cant, Conwy: 10.5 y cant, a Sir Ddinbych). Er nad oedd y bwlch cyn waethed â hwnnw yn ardaloedd y de ddwyrain, dylid cofio hefyd bod yr ardaloedd hynny o leiaf wedi gweld cynnydd aruthrol yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2011,

yn enwedig ymhlith plant oed ysgol, a bod hynny'n arwydd o obaith mai parhau i gynyddu a chryfhau y bydd yr iaith yn yr ardaloedd adferedig hynny.⁷ Yn sefyllfa Sir Gaerfyrddin, ar y llaw arall, mae'r bwlch llafar-llythrennedd yn arwydd o wanychiad yr iaith wrth i'w siaradwyr traddodiadol golli sgiliau eithriadol bwysig a symud cam arwyddocaol iawn tuag at ei cholli'n gyfan gwbl.

Fel y mae nifer o gymdeithasegwyr iaith wedi dadlau yn dilyn trafodaeth bwysig cyntaf E. G. Bowen a Harold Carter ar y testun ym 1975, mae'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu mewn iaith yn arwydd o'i sefydlogrwydd.⁸ Yn yr un modd, mae diffyg llythrennedd mewn iaith yn arwydd o ansefydlogrwydd ac yn awgrymu nad ydyw'r siaradwyr yn gosod gwerth uchel ar fod yn sgiliedig yn yr iaith honno. Ymhellach na hynny, mae diffyg llythrennedd yn amlach na pheidio yn arwyddo cam hollbwysig yn nirywiad iaith, gan taw'r sgiliau cyntaf i'w hepgor mewn proses o shifft iaith fydd y sgiliau llythrennedd. Mae'r rheini'n gofyn am fwy o fuddsoddiad o ran amser ac egni gan y siaradwr na'r gallu i siarad yn unig, neu hyd yn oed ddeall iaith lafar, sydd yn sgiliau haws i'w caffael a'u cynnal ac i raddau yn sgiliau y bydd trigolion mewn cymdeithas ddwyieithog yn eu hennill mewn modd goddefol. Oherwydd hynny, defnyddiwyd y bwlch llafar-llythrennedd gan Bowen a Carter i adnabod cymunedau 'ffiniol' sydd yn mynd trwy broses o shifft ieithyddol. O ddefnyddio'r dechneg hon, gallwn adnabod nifer o gymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin sydd wedi dechrau ar hyd llwybr shifft iaith ac mewn perygl o golli'r Gymraeg.

Trwy edrych ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg sydd yn anllythrennog yn yr iaith fel canran o gyfanswm y siaradwyr Cymraeg, gwelwn ddarlun neilltuol o ddadlennol ar gyflwr y Gymraeg yn Sir Gâr yn 2011. Ar draws Cymru gyfan, 14.2 y cant o'r rheini sy'n gallu siarad Cymraeg sydd yn siarad yr iaith yn unig. Unwaith eto, yr oedd y ganran ar gyfer Sir Gaerfyrddin (15.3 y cant) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn cymharu'n wael gyda'r ardaloedd Cymraeg eraill (megis Gwynedd: 8.9 y cant a Cheredigion: 10.4 y cant). Roedd y ganran hefyd yn uwch nag yr oedd yn 2001 (14.4 y cant) ac yn arwydd sicr fod y bwlch llafar-llythrennedd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i dyfu, sydd yn ei dro yn arwydd fod y broses o shifft iaith hefyd yn cyflymu. Yr oedd canran Caerdydd hyd yn oed yn well na Sir Gaerfyrddin (13.1 y cant), yn bennaf oherwydd fod y brifddinas wedi denu llawer iawn o Gymry Cymraeg addysgedig o'r gogledd a'r gorllewin i weithio yn y cyfryngau a'r gwasanaeth sifil newydd. Ar y lefel lleol, yr oedd ymhell dros hanner wardiau Sir Gaerfyrddin wedi dychwelyd canrannau oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yr oedd mwyafrif llethol y wardiau hynny oedd yn parhau'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn rhannau gwledig y sir, er bod rhai wardiau ôl-ddiwydiannol a threfol yng Nghwm Gwendraeth a Dyffryn Aman wedi dychwelyd canrannau oedd yn is na'r cyfartaledd hefyd. O graffu ar y wardiau

⁷ Aitchison and Carter, *Spreading the Word*, pp.97-106.

⁸ Gw. E. G. Bowen and Harold Carter, 'The distribution of the Welsh language in 1975: An analysis', *Geography*, 60 (1975), 1-15.

hynny sydd â'r bwlch llafar-llythrennedd mwyaf, gwelir bod 8 o'r 10 â'r bwlch mwyaf yn nosbarth Llanelli – gan ddychwelyd canrannau o oddeutu 20 y cant neu ragor. Yn wir, yn ward Tyisha yr oedd dros chwarter y siaradwyr yn methu darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg. Oherwydd bod y bwlch llafar-llythrennedd mor uchel yn y wardiau hyn o gwmpas Llanelli a llawer o Ddyffryn Aman, teg yw casglu mai'r rhain fydd yr ardaloedd mwyaf tebygol o golli'r iaith o fewn y genhedlaeth neu ddwy nesaf. Gan gadw mewn cof y ffaith mai'r ardaloedd hyn hefyd sydd â'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg o fewn y sir yng ngrŵp y plant oed ysgol (rhwng 25 y cant a 35 y cant), a rhai o'r canrannau uchaf o deuluoedd lle mai un rhiant yn unig sy'n siarad Cymraeg, mae'r rhagolygon yn peri cryn bryder.

5 Siaradwyr Cymraeg yn ôl Man Geni


Ychydig iawn o amheuaeth sydd mai un o'r ffactorau pwysicaf a effeithiodd ar lewyrch y Gymraeg yn ei hardaloedd traddodiadol mewn blynyddoedd diweddar fu symudoledd poblogaeth. Parodd y broses ddeuol o allfudiad siaradwyr Cymraeg a mewnfudiad siaradwyr uniaith Saesneg ddirywiad sylweddol iawn yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ar draws ei chadarnleoedd. Profwyd hynny hefyd yn Sir Gaerfyrddin, a welodd gynnydd arwyddocaol yng nghanrannau'r rheini a anwyd y tu allan i Gymru oddi ar y 1970au. Hyd at 1971, yr oedd 9 o bob 10 o drigolion Sir Gâr wedi'u geni a'u magu yng Nghymru – y mwyafrif llethol ohonynt o fewn Sir Gâr ei hun. Fodd bynnag, yn sgil prosesau megis gwrthdrefoli, mudo wrth chwilio am waith ac ymddeol, profodd y sir gynnydd yn nifer y trigolion a aned y tu allan i'r wlad (**gw. Tabl 5.1 a Graff 5.1**). Deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ac yr oedd canran y rheini a aned yng Nghymru wedi disgyn 14 y cant. Yr oedd y canrannau o drigolion a aned yng Nghymru yn parhau i fod yn eithriadol o uchel mewn rhai rhannau o'r sir (yn enwedig yn nosbarth Llanelli ac o gwmpas Rhydaman), ac ymhlith y canrannau uchaf o bobl wedi'u geni yng Nghymru ar draws y wlad. Fodd bynnag, ceid stori tra wahanol mewn rhai o'r cymunedau gwledig a oedd yn amlwg yn ddeniadol iawn i fewnfudwyr. Yng Nghynwyl Gaeo, ward sy'n cynnwys cymunedau gwledig ac anghysbell Caeo, Crug-y-bar, Cwrt-y-cadno, Ffarmers a Phumsaint, y ceid y ganran uchaf o fewnfudwyr yn Sir Gaerfyrddin (45.5 y cant) – lle bu cynnydd pellach o +5.3 y cant ym mhoblogaeth y ward a aned tu allan i Gymru oddi ar 2001 (40.2 y cant). Erbyn 2011 roedd 17 o wardiau wedi dychwelyd 30 y cant a rhagor o'u trigolion fel pobl oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru – y cwbl yn wardiau gwledig ar draws gwahanol rannau o'r sir (**gw. Tabl 5.2, Graff 5.3 a Map 5.1**).

Yr oedd effeithiau'r mewnfudo hynny ar y cymunedau Cymraeg yn sylweddol, gan gymhell Harold Carter i ddatgan 'fod poblogaeth mewnfudol o'r tu allan i Gymru yn gysylltiedig â cholli'r iaith'.⁹ Dangosodd canlyniadau cyfrifiad 2001 fod cyfatebiaeth agos rhwng canrannau uniaith Saesneg nifer o wardiau a chanrannau'r rheini a aned tu allan i Gymru, a thystiodd canlyniadau 2011 i'r

⁹ Carter, *Mewnfudo a'r Iaith Gymraeg*, t. 8.

un patrwm yn union (**gw. Graffiau 5.4 - 5.6**). Gellid, wrth gwrs, esbonio Seisnigrwydd ambell ardal fel Hendy-gwyn trwy'r ffaith eu bod yn hanesyddol wedi'u cysylltu'n agos â de Sir Benfro. Mae'n sicr fod twristiaeth wedi chwarae rhan yn Seisnigo'r ardal ar hyd yr arfordir o gwmpas Talacharn a Llansteffan, ac roedd trefi marchnad Caerfyrddin a Llanymddyfri wedi dod dan ddylanwad y masnachwyr Saesneg ers canrif a rhagor.

Poblogaeth a aned tu allan i Gymru, Sir Gaerfyrddin 2011



Ond mewnfudiad pobl ddi-Gymraeg a barodd Seisnigo wardiau megis Llanboidy, Tre-lech a Chynwyl Elfed ym Mro Myrddin; Cynwyl Gaeo, Cilycwm, Manordeilo a Llangadog yn ardal Dyffryn Tywi; a Chenarth, Llangeler a Llanybydder yn ardal Dyffryn Teifi. Profwyd patrymau tebyg o Seisnigo mewn ardaloedd gwledig eraill ar draws y Fro Gymraeg, yn enwedig yr ochr draw i'r ffin sirol yn rhai o gymunedau Ceredigion a gogledd Sir Benfro. Yr oedd y gyfatebiaeth amlwg rhwng canrannau siaradwyr uniaith Saesneg a chanrannau trigolion a aned y tu allan i Gymru yn arwyddocaol iawn. Yn Llangeler yn 2011, yr oedd 45.5 y cant o'r trigolion yn ddi-Gymraeg a 40.7 y cant wedi cael eu geni y tu allan i Gymru. Ceid cyfatebiaeth agos mewn nifer o gymunedau rhwng canrannau'r rheini a aned y tu allan i Gymru a chanrannau'r siaradwyr uniaith Saesneg, sy'n awgrymu'n gryf bod wardiau megis Trelech yng ngorllewin y sir, gyda deugain y cant o'r boblogaeth wedi'u geni y tu allan i'r wlad – wedi Seisnigo o *ganlyniad* i fewnfudo.

Fodd bynnag, o gymharu ystadegau'r ddau gyfrifiad diwethaf, gwelir mai'r trefi a'r ardaloedd mwy diwydiannol a brofodd y cynnydd mwyaf yng

nghanrannau'r trigolion hynny a aned tu allan i Gymru yn ystod y degawd a aeth heibio. O'r 13 ward yn Sir Gaerfyrddin a welodd cynnydd o +5 y cant a mwy yn y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru rhwng 2001 a 2011, dau yn unig oedd yn wardiau gwledig. Trefi Llanelli, Rhydaman, Caerfyrddin a Hendy-gwyn a brofodd y cynnydd mwyaf – Tyisha oedd y ward oddi fewn i dref Llanelli a welodd y mewnfudo mwyaf o ran canran wrth iddo brofi cynnydd o +11.7 y cant yng nghanran y trigolion a aned tu allan i Gymru (neu gyfanswm o +489 o bobl), a Glan-y-môr yn Llanelli y nifer mwyaf gyda chyfanswm o +592 (neu gynnydd mewn canran o +8.8 y cant). Mae'n anodd esbonio pam y bu cymaint o gynnydd yn y wardiau trefol a diwydiannol hyn, ond dim ond mewn rhai o'r wardiau hyn y gellir priodoli cyfran helaeth o'r mewnfudo rhwng 2001 a 2011 i bobl oedd wedi symud i'r ardal o du allan i Brydain. Un o'r wardiau hynny oedd Tyisha – yn 2001 roedd 97.3 y cant o drigolion y ward wedi'u geni ym Mhrydain (87.9 y cant o'r rheini yng Nghymru) tra bod 2.7 y cant wedi'u geni tu allan i Brydain. Erbyn 2011 roedd canran trigolion Tysia a aned ym Mhrydain wedi gostwng i 88.7 y cant (76.2 y cant o'r rheini yng Nghymru) tra bod 11.3 y cant wedi'u geni erbyn hynny tu allan i Brydain. Felly o'r +11.7 y cant o gynnydd a fu yng nghanran trigolion Tyisha (sef +489 o unigolion) a aned tu allan i Gymru rhwng 2001 a 2011, roedd 8.6 y cant o'r cynnydd hwnnw (sef 354 o unigolion) o ganlyniad i fewnfudo o du allan i Brydain (ac yn bennaf o wledydd canol a dwyrain Ewrop). Er bod tua'r un nifer o'r mewnfudwyr i Glan-y-môr yn yr un cyfnod hefyd wedi symud i'r ward o du allan i Brydain (+332 o unigolion), nid oeddynt yn cynrychioli cyfran mor arwyddocaol o'r cynnydd yn y ganran o bobl a aned tu allan i Gymru (sef 5.5 y cant o'r cynnydd +8.8 y cant) rhwng 2001 a 2011.

Mae'n deg dweud fod heriau ychwanegol i'r Gymraeg wrth geisio cymhathu mewnfudwyr i Sir Gaerfyrddin o'r cyfandir a thu hwnt. Blaenoriaeth gyntaf y mewnfudwyr hyn wrth ymsefydlu yw dysgu a gwella eu Saesneg mewn ymdrech i ennill dinasyddiaeth Brydeinig. Ychydig iawn ohonynt fydd yn ymwybodol o iaith a diwylliant unigryw Cymru cyn symud i'r sir ac er y bydd rhai yn bwrw gwreiddiau dwfn ac yn ymgymreigio, lleiafrif bychan iawn yw'r rheini. Gyda'r boblogaeth leol i gyd yn gallu siarad Saesneg, nid oes rheidrwydd arnynt i ddysgu Cymraeg er mwyn gallu cyfathrebu gyda thrigolion lleol eu cymunedau mabwysiedig newydd. Fodd bynnag bychan, mewn gwirionedd, yw effeithia'r mewnfudo hwn o du hwnt i Brydain o'i gymharu ag effeithiau'r mewnfudo o rannau eraill o Brydain – a Lloegr yn benodol. Ac er mai'r trefi a'r ardaloedd diwydiannol yn bennaf a brofodd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth a aned tu allan i Gymru rhwng 2001 a 2011, cymharol fach o hyd oedd cyfanswm y boblogaeth fewnfudol honno oddi fewn i'r boblogaeth gyfan. Er bod tua'r un nifer o fewnfudwyr o du allan i Gymru yn byw yn ward Bigyn (1,149) ac yn Nghynwyl Elfed (1,027), roedd y ffaith fod rheini'n cynrychioli dwywaith yn fwy o'r boblogaeth yng Nghynwyl (34 y cant o gymharu ag 17 y cant ym Migyn) yn golygu fod y pwysau ar y Gymraeg gymaint â hynny'n fwy hefyd.

Rhydd ystadegau'r cyfrifiad yn 2011 ddarlun i ni hefyd o allu ieithyddol y mewnfudwyr. Ar draws y sir, honnai 13.2 y cant o'r mewnfudwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg (**gw. Tabl 5. 3**) – canran is, gyda llaw, na 2001 pan honnai 14.9 y cant o'r mewnfudwyr eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Ceid y canrannau uchaf o fewnfudwyr a siaradai'r Gymraeg yn y wardiau hynny lle ceid rhai o'r canrannau uchaf o siaradwyr ymhlith y boblogaeth gyfan (megis Cwarter Bach: 22.9 y cant, Pontyberem: 19.2 y cant, Garnant: 18.5 y cant a Llan-non: 18.0 y cant). Serch hynny, dylid cofio mai ychydig iawn o fewnfudwyr a geid yn yr ardaloedd hyn (o ran nifer a chanran o'r boblogaeth). Serch hynny, awgryma'r dystiolaeth yn gryf fod mewnfudwyr mewn cymunedau lle mae canran uchel iawn o'r boblogaeth gysefin yn siarad Cymraeg yn llawer fwy tebygol o gymhathu'n llwyddiannus a dysgu iaith y gymuned. Yn yr un modd, ceid rhai o'r canrannau isaf o fewnfudwyr Cymraeg eu hiaith yn y wardiau hynny gyda'r ganran isaf o drigolion cysefin a fedrai siarad Cymraeg (megis nifer o wardiau yn nosbarth Llanelli). Awgryma hyn yn yr un modd nad oedd y mewnfudwyr wedi teimlo rheidwydd i ddysgu'r iaith oherwydd nad y Gymraeg oedd iaith y gymuned leol.

Yr un mor ddinistriol â'r mewnfudiad, wrth gwrs, yw'r allfudiad. Fel y noda Harold Carter, 'Mae'n rhaid cofio bod cymeriad ieithyddol cymuned yn cael ei benderfynu, mewn rhan o leiaf, gan y rhai sy'n symud allan yn ogystal â'r rhai sy'n symud i mewn.'¹⁰ Profodd Cymru allfudiad sylweddol iawn yn ystod y 1980au – rhwng 1981 a 1987 aeth bron 270,000 o Gymry dros Glawdd Offa.¹¹ O ran ffyniant yr iaith, teimlwyd yr ergydion gwaethaf yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn y gogledd a'r gorllewin ac yn natur y boblogaeth a gollwyd. Erbyn diwedd y 1980au roedd 28,000 o bobl yn gadael Gwynedd, Dyfed a Chlwyd bob blwyddyn, a hanner y rheini yn bobl ifainc rhwng 15–29 oed.¹² Oherwydd prisiau chwyddedig tai, prinder tai ar rent mewn rhai cymunedau, diffyg cyfleoedd economaidd, prinder cyfleusterau cymdeithasol ac adloniadol, ac atyniad addysg uwch tu allan i Gymru, tlodwyd cadarnleoedd y Gymraeg o rai o'u merched a'u meibion mwyaf egniol a disglair. Weithiau, wrth gwrs, gadael Cymru dros dro a wnai rhai o'r bobl hyn, gyda'r bwriad o ddychwelyd i'w cynefin ar ôl ennill profiad gwaith neu ymweld â rhannau eraill o'r byd. Weithiau, cael eu denu i Gaerdydd a wnânt oherwydd canoli llawer o sefydliadau cenedlaethol yn y brifddinas sy'n cynnig cyfleoedd gwaith nodedig i Gymry Cymraeg, megis yn y cyfryngau neu Lywodraeth Cymru. Ond yn llawer rhy fyny, bydd llawer o'r bobl ifainc hyn yn gadael eu cynefin yn barhaol gan beri colli cyfran bwysig a dylanwadol o siaradwyr Cymraeg.

Yn anffodus, anodd iawn yw crynhoi ystadegau cynhwysfawr o'r cyfrifiadau am batrymau allfudiad, gan bod y data wedi ei wyro at ardaloedd derbyn yn hytrach nag ardaloedd cyfrannol. Ychydig iawn o ffynonellau, mewn

¹⁰ Carter, *Mewnfudo a'r Iaith Gymraeg*, t. 11.

¹¹ Office for National Statistics, *Population Trends*, Hydref 1988, Tabl 6.6.

¹² Ffigurau a gyflenwyd gan Adrannau Cynllunio Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Clwyd a Chyngor Sir Dyfed ar gyfer 1990. Dyfynnwyd yn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, *Adroddiad ar yr Allfudiad* (Aberystwyth, 1991).


gwirionedd, y gellir eu defnyddio'n effeithiol er mwyn crynhoi'r wybodaeth bwysig hon, ond dangosodd Harold Carter bod modd defnyddio Cofrestr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol er mwyn olrhain symudiadau poblogaeth rhwng ardaloedd awdurdodau unedol ledled Prydain wrth iddynt gofrestru gyda gwahanol feddygon teulu. Serch hynny, nid oes neb hyd yn hyn wedi defnyddio'r ffynhonnell hon ar gyfer cynnal astudiaeth gynhwysfawr o batrymau allfudo o Sir Gâr, tasg y dylid ymgymryd â hi ar fyrder er mwyn deall natur a graddfa y broblem ddemograffig affwysol hon.

6 Siaradwyr Cymraeg yn ôl Galwedigaeth, Diwydiant y Gyflogaeth a Dosbarth Economaidd-Gymdeithasol

Cyhoeddwyd rhywfaint o ddata ychwanegol hefyd yn sgil Cyfrifiad 2011 sydd yn rhoi darlun manwl o sefyllfa'r Gymraeg ar draws rhai themâu penodol, megis yn arbennig galwedigaeth, diwydiant y gyflogaeth, a dosbarth economaidd-gymdeithasol y trigolion.

O ran diwydiant y gyflogaeth, mae'n amlwg fod y siaradwyr Cymraeg yn tueddu i weithio yn bennaf o fewn Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu (14.9 y cant), Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (14.2 y cant), ac Addysg (13.9 y cant) (**gw. Tabl 6.1 a Graff 6.1**). Roedd y canrannau hyn yn eitha tebyg i rai Cyfrifiad 2001 (sef 15.8 y cant, 14 y cant, a 10.7 y cant yn ôl eu trefn).


Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Diwydiant y Gyflogaeth, Sir Gaerfyrddin 2011



Fodd bynnag, profwyd gostyngiad arwyddocaol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg a gyflogwyd yn y sector Gweithgynhyrchu – o 11.6 y cant yn 2001 i 6.9 y cant yn 2011. Erbyn hyn, dim ond 8.2 y cant o'r Cymry Cymraeg sy'n gweithio o fewn y sector Amaeth, sy'n ganlyniad uniongyrchol i ddirywiad cyffredinol y diwydiant yn ystod y blynyddoedd diweddar. O edrych ar yr ystadegau o gyfeiriad gwahanol, gwelir bod cyfran sylweddol o drigolion y sir sy'n gweithio o fewn y sector Amaeth yn gallu siarad Cymraeg (56.8 y cant), er bod y ganran honno'n is na'r ganran cyfatebol ar gyfer 2001 (65.1 y cant). Y sector nesaf â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg eu hiaith oedd Addysg (55.1 y cant) a wedyn Gweinyddiaeth Gyhoeddus (46.7 y cant) – yn brawf o bwysigrwydd cynyddol sgiliau dwyieithog i'r sector gyhoeddus ac, yn ei dro, pwysigrwydd y sector gyhoeddus i gynhaliaeth yr iaith Gymraeg. Y sectorau Seisnigaf yn Sir Gâr yn 2011 oedd Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasnaethau Cefnogi (67.6 y cant yn ddi-Gymraeg), Gweithgynhyrchu (67.1 y cant), a'r sector Llety a Gwasanaethau Bwyd (66.5 y cant) – gan atgyfnerthu delwedd draddodiadol y sector twristiaeth fel un sydd yn ei hanfod yn ddiwydiant Seisnig a dieithr). Noder bod mwyafrif sylweddol o weithwyr sector mwyaf niferus y sir, sef Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu, lle cyflogid 13,502 o drigolion y sir, hefyd yn ddi-Gymraeg (62.6 y cant).

Ceid patrymau diddorol iawn i alwedigaeth trigolion Sir Gâr yn 2011 (**gw. Tabl 6.2 a Graff 6.2**). O ran holl drigolion y sir, perthynai'r mwyafrif o bobl mewn gwaith yn Sir Gâr i'r Galwedigaethau Crefftau (19 y cant, o gymharu â 16.6 y cant yn 2001).

Galwedigaethau Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 2011



Yr oedd canran ychydig yn uwch o siaradwyr Cymraeg yn perthyn i'r galwedigaethau hyn na'r di-Gymraeg (14.9 y cant), tra mai'r galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r galwedigaethau Proses, Gweithredwyr Offer a Pheiriannau oedd y ddau sector alwedigaethol lleiaf poblogaidd ymhlith y siaradwyr Cymraeg (7.6 y cant). O edrych ar yr ystadegau mewn modd ychydig yn wahanol, fe allwn weld y rhaniad ieithyddol o fewn y gwahanol alwedigaethau. Y peth cyntaf i sylwi arno yw cyn lleied o'r Rheolwyr a'r Swyddogion Uwch oedd yn siarad Cymraeg (34.8 y cant yn siarad Cymraeg o gymharu â 65.2 y cant yn ddi-Gymraeg, oedd hyd yn oed yn is na'r canrannau cyfatebol yn 2001, sef 39.9 y cant o gymharu â 60.1 y cant). Atega hyn ddadl gref gan Delyth Morris a Glyn Williams sydd wedi dangos fod tuedd gyson i Gymry Cymraeg gael eu diystyru ar gyfer swyddi rheoli, a bod cyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl ddi-Gymraeg yn meddiannu swyddi rheolwyr ar draws Cymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg.¹³ Fodd bynnag, diddorol nodi mai o fewn y sector breifat y ceid y bwch ieithyddol mwyaf rhwng Rheolwyr a Swyddogion Uwch: tra bod 36.5 pwynt canran o wahaniaeth rhwng Rheolwyr a Pherchnogion y sector breifat (68.2 y cant yn ddi-Gymraeg a 31.8 y cant yn gallu siarad Cymraeg), roedd y bwch yn gostwng i 25.5 pwynt canran rhwng Rheolwyr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol y sector gyhoeddus (62.7 yn ddi-Gymraeg a 37.3 y cant yn gallu siarad Cymraeg).

Tra yn 2001 gellid nodi bod cyfran uwch o bobl a gyflogwyd yn y Galwedigaethau Proffesiynol yn Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg (53.0 y cant o gymharu â 47.0 y cant), nid oedd hynny yn wir fodd bynnag yn 2011 (46.3 y cant o bobl broffesiynol Sir Gaerfyrddin a siaradai Gymraeg yn 2011 tra bod 53.7 y cant ohonynt bellach yn ddi-Gymraeg). Yn wir, ni cheid un sector galwedigaethol erbyn 2011 lle ceid fwy o siaradwyr Cymraeg na siaradwyr di-Gymraeg, er bod fwy o siaradwyr Cymraeg yn is-sectorau galwedigaethol Amaeth (62.9 y cant o gymharu â 37.1 y cant) ac Addysgu ac Addysg (60.4 y cant o gymharu â 39.6 y cant). Ceid fwy o siaradwyr di-Gymraeg yn is-sectorau galwedigaethol Tecstilïau ac Argraffu (65.7 y cant o gymharu â 34.3 y cant), y galwedigaethau Proses, Gweithredwyr Offer a Pheiriannau (67 y cant o gymharu â 33 y cant), a'r galwedigaethau Gweinyddol a Gwasanaethau Elfennol (65.2 y cant o gymharu â 34.8 y cant). Ymddengys fod y siaradwyr Cymraeg yn leiafrif hefyd o fewn y galwedigaethau gwerthu (35.9 y cant), ond yn cynrychioli fwy o ganran o'r gweithlu oddi fewn i'r galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid (41.3 y cant), gan unwaith eto danlinellu pwysigrwydd sgiliau dwyieithog wrth ddelio gyda'r cyhoedd oddi fewn i'r sector gyhoeddus. Pe rhoddid yr un pwyslais ar gynnig gwasanaethau dwyieithog o fewn y sectorau preifat a gwirfoddol mae'n siŵr y byddai canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn cynyddu yn y sectorau hynny hefyd.

¹³ Glyn Williams and Delyth Morris, *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Cardiff, 2000), pp.129-35.

Gorffenna'r tablau thematig trwy edrych ar ddosbarth economaidd-gymdeithasol trigolion Sir Gaerfyrddin (**gw. Tabl 6.3 a Graff 6.3**). Diddorol yw nodi bod 20.7 y cant o'r siaradwyr Cymraeg yn perthyn i'r galwedigaethau rheoli a phroffesiynol is (o gymharu â 18.7 y cant o'r di-Gymraeg), 14.8 y cant yn perthyn i'r galwedigaethau lled-arferol, a 13.6 y cant yn gyflogwyr bach ac yn weithwyr hunan-gyfrif. Dim ond 6.4 y cant o'r siaradwyr Cymraeg oedd yn perthyn i'r galwedigaethau uwch-reoli a galwedigaethau proffesiynol. Yn wir, yr oedd 60.4 y cant o'r dosbarth economaidd-gymdeithasol hwn yn ddi-Gymraeg, a 39.6.0 y cant yn unig yn siarad Cymraeg (tra yn 2001 yr oedd 58.0 y cant yn ddi-Gymraeg a 42.0 y cant yn gallu siarad Cymraeg). Mewn gwirionedd, ceid canrannau uwch o siaradwyr Saesneg na Chymraeg ar draws pob un o'r 8 dosbarth economaidd-gymdeithasol. Yr oedd canrannau tipyn yn uwch o'r is-gategori di-waith hir dymor hefyd yn ddi-Gymraeg (75.3 y cant o gymharu â 24.7 y cant a allai siarad Cymraeg).

Casgliadau

Cyflwr y Gymraeg yn 2011

- Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn **iaith ar drai** yn Sir Gaerfyrddin. Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd niferoedd y siaradwyr Cymraeg o 83,802 i 78,048 – sef gostyngiad o -7.4 y cant yng nghyfanswm y rheini a fedrai ei siarad.
- Digwyddodd hynny yn ystod cyfnod pan fu cynnydd net ym mhoblogaeth gyfan y sir, gan beri bod canran y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn o 50.1 y cant yn 2001 i 43.9 y cant erbyn 2011 – sef gostyngiad o -6.2 y cant yn y canrannau, gyda'r canlyniad fod y **siaradwyr Cymraeg am y tro cyntaf erioed yn leiafrif** oddi fewn i Sir Gaerfyrddin.
- Sir Gaerfyrddin profodd y **gostyngiad mwyaf** yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg o **holl siroedd Cymru** rhwng 2001 a 2011 (Ceredigion -4.5 y cant, Gwynedd -3.3 y cant).
- Er methiant y Gymraeg yn genedlaethol i ail-adrodd canlyniadau calonogol Cyfrifiad 2001 pan brofwyd cynnydd am y tro cyntaf erioed yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg, roedd yr iaith yn dal ei thir yn weddol, ac yn dal i ddangos *cynnydd* net o 53,918 yn niferoedd y siaradwyr yn ystod cyfnod o ugain mlynedd rhwng 1991 a 2011. Fodd bynnag, **colled net** o 11,165 a brofodd Sir Gaerfyrddin yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod yr un cyfnod.
- O safbwynt niferoedd siaradwyr, serch hynny, Sir Gaerfyrddin oedd â'r **cyfanswm mwyaf o siaradwyr Cymraeg** o holl awdurdodau lleol Cymru yn 2011 unwaith eto. Ceid casgliadau sylweddol iawn o siaradwyr yn nhrefi'r sir, yn enwedig Llanelli (5,732) a Chaerfyrddin (5,123), ac yr oedd ardaloedd ôl-ddiwydiannol Cwm Gwendraeth a Dyffryn Aman yn cynnwys 10,463 a 12,267 o siaradwyr.
- Amlygai patrymau dosbarthiad y siaradwyr o ran canran o'r boblogaeth gyfan fod yr iaith yn dal i fod **ar ei chryfaf ar draws Cwm Gwendraeth** (lle y cynrychiolent 62.4 y cant o'r boblogaeth), ac mewn wardiau unigol megis Cwarter Bach (67.4 y cant) a Phenygroes (62.2 y cant) yn Nyffryn Aman. Serch hynny, nid oedd un ward etholiadol bellach yn y sir gyfan lle y gallai 70 y cant neu ragor o'r boblogaeth siarad Cymraeg.
- Yn wardiau **tref Llanelli yr oedd yr iaith ar ei gwanaf** o safbwynt canran y siaradwyr (23.8 y cant), tra bod y siaradwyr Cymraeg yn dal i golli tir a lleihau yn nhrefi Caerfyrddin (lle'r oedd canran y siaradwyr Cymraeg yn 37.6 y cant). Porth Tywyn (32.2 y cant), Llanymddyfri (40.3 y cant) a Hendy-gwyn (42.4 y cant). Ond Rhydaman a brofodd y dirywiad ieithyddol mwyaf o holl drefi'r sir rhwng 2001 a 2011, gan ostwng o 62.1 y cant i 49.9 y cant - gwahaniaeth o -12.2 y cant.

- Profwyd **colledion sylweddol hefyd yng nghefn gwlad**, gan gynnwys ym mhen uchaf a phen gwaelod Dyffryn Teifi – disgynnodd canrannau siaradwyr Cymraeg ward Cynwyl Gaeo o 58.0 y cant yn 2001 i 46.7 y cant yn 2011 (gwahaniaeth o -11.3 y cant), tra disgynnodd y canrannau yng Nghenarth o 60.4 y cant i 48.8 y cant (gwahaniaeth o -11.6 y cant).
- Pan gymherir canlyniadau cyfrifiad 2011 gyda 1991 (trwy gymharu ystadegau ar lefel y cymunedau), gwelir bod 69 o'r 72 cymuned yn Sir Gaerfyrddin wedi profi dirywiad ieithyddol. Mewn cyfnod o ugain mlynedd profodd cymuned Llanwinio ostyngiad o -21.5 y cant yn nghanrannau ei siaradwyr Cymraeg, tra bod cymunedau Abernant a Chastellnewydd Emlyn, hefyd yng ngorllewin y sir, wedi profi gostyngiad o -19.0 y cant a -18.9 y cant, tra profodd cymunedau megis Cynwyl Gaeo (-16.3 y cant, Llansadwrn (-16.7 y cant) a Llanycrwys (-16.9 y cant) ostyngiadau tebyg yn ardaloedd gwledig dwyrain y sir.
- Eithriadau prin iawn oedd y cymunedau hynny a brofodd cynnydd yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn ystod yr un cyfnod, ac nid yw'n gyddigwyddiad fod y 3 (Eglwysgymun 5.9 y cant, Pentywyn 5.7 y cant, a Threflan Talacharn 2.2 y cant) i gyd ar arfordir de-orllewinol y sir ac yn dechrau o fan eithaf gwan yn ystadegol yn y lle cyntaf. Noder bod y cynnydd hwn mewn canrannau yn cynrychioli o ran nifer dim mwy na 52 person ychwanegol, a hynny mewn ugain mlynedd – felly go brin fod y cynnydd o unrhyw arwyddocâd ystadegol neilltuol, er bod unrhyw gynnydd, wrth gwrs, i'w groesawu yn wyneb canlyniadau sydd fel arall yn eithriadol o siomedig.

Grwpiau oed

- O safbwynt dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ar draws y grwpiau oed, ceir y **canrannau uchaf ymhlith y grŵp 3-15 oed** (57.7 y cant) **a'r rhai 85 oed neu'n hŷn** (56.9 y cant).
- O fewn oed ysgol, noder bod 60.0 y cant o blant 5-9 oed a 60.1 y cant o blant 10-14 yn gallu siarad Cymraeg (cymharer â 60.5 y cant a 61.2 y cant yn 2001), gan brofi fod y canrannau'n dal eu tir yn weddol o fewn grwpiau oed ysgol. Tystia'r canrannau hefyd i lwyddiant system addysg y sir i gynhyrchu a chynnal siaradwyr Cymraeg yn ystod eu gyrfa addysgol (er bod y canrannau'n disgyn yn brin o hyd o nod polisi addysg y sir o greu disgyblion cwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol).
- Mae canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp 25-49 oed (36.4 y cant) gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd sirol (43.9 y cant), ac yn sylweddol is na chanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn y grŵp 15-24 oed yng nghanlyniadau 2001 (49.2 y cant), sy'n tystio i broses o shifft iaith wrth i'w siaradwyr yn raddol droi cefn ar y Gymraeg po bellaf y byddant o'u dyddiau ysgol.
- Noder bod 58.2 y cant o drigolion 3-15 oed Sir Gaerfyrddin (h.y. poblogaeth ysgol y sir) yn siarad Cymraeg yn 2001, ond yn 2011 dim ond 46.2 y cant o'r trigolion hyn (a fyddai'n 16-24 erbyn hynny), a gofnodwyd fel siaradwyr Cymraeg (colled o -12.0 y cant). Awgryma hyn bod cyfran

helaeth o'r rheini oedd yn blant ysgol deng mlynedd yn ôl wedi gollwng eu Cymraeg am ryw reswm.

- Ar ben arall yr ystod oedrannau, ceir rhybudd amserol mai parhau i ostwng fydd niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg y sir tra bydd y genhedlaeth hon o Gymry Cymraeg yn dal i gael eu colli bob blwyddyn drwy farwolaeth. Mae sefyllfa ieithyddol sy'n ddibynnol ar siaradwyr hŷn am gynnal y canrannau siaradwyr yn anghynnaladwy a bydd gostyngiad cyson yng nghanrannau siaradwyr y sir tan y bydd rhagor o siaradwyr yn cael eu cynhyrchu ymhlith y cenedlaethau iau.

Trosglwyddiad iaith

- Er bod bron hanner aelwydydd y sir yn cynnwys o leiaf un rhiant a allai siarad Cymraeg (yn seiliedig ar aelwydydd lle ceid plant 3 i 4 oed), dim ond 25.4 y cant o'r aelwydydd hynny sydd â'r ddau riant yn siarad Cymraeg (cymharer gyda 29.4 yn 2001). Yn wir, 5 ward yn unig oedd yn Sir Gâr erbyn 2011 lle'r oedd dros hanner yr aelwydydd yn Gymraeg eu hiaith.
- O safbwynt patrymau trosglwyddiad iaith, ar gyfartaledd ar draws y sir gyfan megir plant Cymraeg eu hiaith gan dri chwarter yr aelwydydd Cymraeg (hynny yw lle gall y ddau riant siarad Cymraeg, neu'r rhiant sengl nad ydyw'n byw gyda chymar). Ar draws y rhan helaethaf o'r sir, megir plant yn Gymraeg gan rieni Cymraeg eu hiaith fel arfer, gan dystio i lwyddiant y mentrau iaith a chynlluniau megis TWF wrth ddarbwylllo rhieni Cymraeg i fagu eu plant yn Gymraeg. Tystia hefyd i'r ymchwydd mewn hyder yn nefnyddioldeb y Gymraeg fel iaith fodern werthfawr a manteision cyffredinol dwyieithrwydd.
- Fodd bynnag, gwelir hefyd bod oddeutu chwarter aelwydydd Cymraeg y sir o hyd yn dewis magu eu plant yn Saesneg (canran weddol gyson oddi ar 2001).
- Ar aelwydydd cymysg eu hiaith (h.y. aelwydydd dau oedolyn lle siaredir Cymraeg gan un rhiant yn unig) mae'r gyfradd drosglwyddo cryn dipyn yn is (57.7 y cant) – ond yn uwch na 2001 (47.9 y cant). Ar lawr gwlad, amrywia'r cyfraddau trosglwyddo yn sylweddol iawn o 100 y cant yn wardiau Llanboidy, Llanfihangel Aberbythych a'r Glyn, i ward deheuol tref Caerfyrddin lle mae 16.7 y cant yn unig o'r plant 3 i 4 oed sy'n byw ar aelwyd gymysg ei hiaith a fagwyd i siarad Cymraeg. Anos gwrthsefyll dylanwadau Saesneg pan mai un rhiant yn unig a fedr siarad Cymraeg, sydd yn golygu fod fwy o ddibyniaeth ar y gyfundrefn addysg i gefnogi ac ategu'r Gymraeg a ddysgir ar yr aelwyd.

Ystod sgiliau iaith y boblogaeth

- Yn ôl canlyniadau 2011, mae gan 58.1 y cant o boblogaeth Sir Gaerfyrddin ryw wybodaeth o'r Gymraeg (hynny yw, o leiaf un sgîl ieithyddol megis deall, siarad, darllen a/neu ysgrifennu Cymraeg), o gymharu gyda 63.6 y cant yn 2001. Dyma'r drydedd ganran uchaf o blith holl awdurdodau

unedol Cymru (ar ôl Gwynedd 73.5 y cant ac Ynys Môn 69.6 y cant). Fodd bynnag, ymddengys bod yn Sir Gaerfyrddin gyfartaledd uwch na'r cyffredin o drigolion sydd yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig (11.5 y cant), a'r cyfartaledd uchaf o drigolion sydd yn gallu siarad Cymraeg, ond heb fod yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg (15.3 y cant o siaradwyr Cymraeg y sir). Yr oedd y canrannau hyn yn eithriadol o uchel yn ardal Llanelli, lle'r oedd bron chwarter y siaradwyr Cymraeg yn methu darllen nac ysgrifennu Cymraeg.

- Mae'r bwlch llafar-llythrennedd hyn yn arwydd o ansefydlogrwydd ieithyddol ac yn fodd o adnabod ardaloedd sydd yn mynd trwy'r broses o shifft ieithyddol (gan fod y rheini sy'n anllythrennog yn yr iaith yn llawer fwy tebyg o ollwng yr iaith na'r rheini sy'n gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ogystal â'i siarad). O ganlyniad, mae mawr angen canolbwyntio adnoddau mewn ardaloedd penodol megis Llanelli a'r cyffiniau, Dyffryn Aman, Caerfyrddin a'r cyffiniau, Llanymddyfri ac ardal Talacharn a Hendy-gwyn.

Patrymau o allfudo a mewnfudo

- Mae mewnfudo wedi profi i fod yn ddylanwad pwysig iawn o safbwynt Seisnigo rhannau helaeth o'r sir. Er nad oes cyfatebiaeth rhwng canrannau siaradwyr uniaith Saesneg a chanrannau pobl sydd wedi'u geni tu allan i Gymru mewn ardaloedd megis Llanelli, Cwm Gwendraeth, Dyffryn Aman a Chaerfyrddin, mae'n amlwg bod cysylltiad agos rhwng y ddeubeth yn yr ardaloedd gwledig. Bu mewnfudo sylweddol iawn i rai cymunedau ym mhen uchaf Dyffryn Tywi o Gilycwm hyd Llandeilo, yn ardal Bro Teifi rhwng Llangeler a Chenarth ac yn ardal Llanboidy. Er enghraifft, yn Llangeler yn 2011 yr oedd 45.5 y cant o'r trigolion yn ddi-Gymraeg a 40.7 y cant hefyd wedi cael eu geni y tu allan i Gymru.
- Lleiafrif bychan o'r mewnfudwyr hyn sydd wedi llwyddo i gymhathu i'w cymunedau mabwysiedig newydd trwy ddysgu'r Gymraeg (13.2 y cant). Awgryma'r ystadegau fod mewnfudwyr mewn cymunedau lle mae canran uchel iawn o'r boblogaeth gysefin yn siarad Cymraeg yn llawer fwy tebygol o gymhathu'n llwyddiannus a dysgu iaith y gymuned. Yn yr un modd, awgryma'r ystadegau hefyd nad oedd y mewnfudwyr i'r cymunedau hynny â'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg o blith y boblogaeth gysefin yn teimlo unrhyw reidrwydd i ddysgu'r iaith oherwydd nad y Gymraeg oedd iaith y gymuned leol.
- Yn anffodus, er mor sylweddol a thyngedfennol yw effeithiau allfudiad ar ffyniant y Gymraeg, nid yw ystadegau'r cyfrifiad yn datgelu llawer. Dylid cynnal astudiaeth ar fyrder o Gofrestr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol er mwyn deall natur a graddfa y broblem ddemograffig affwysol hon.

Patrymau cyflogaeth a menter

- 41.5 y cant o weithlu Sir Gaerfyrddin yn 2011 a allai siarad Cymraeg, o gymharu â 58.5 y cant oedd yn ddi-Gymraeg. Mae'r ganran hon yn is na'r


cyfartaledd sirol ac yn golygu fod y siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif o fewn y gweithle. Cyflogir y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg o fewn y sector Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu (14.9 y cant), Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (14.2 y cant), ac Addysg (13.9 y cant). Erbyn hyn, dim ond 8.2 y cant o'r Cymry Cymraeg sy'n gweithio o fewn y sector amaeth. Mewn dau sector yn unig y mae'r siaradwyr Cymraeg yn y mwyafrif, sef Amaeth, lle mae 56.8 y cant o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg (o gymharu gyda 65.1 y cant yn 2001), ac Addysg (55.1 y cant).

- Lleiafrif o weithwyr y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus sy'n gallu siarad Cymraeg (46.7 y cant) a hyd yn oed llai yw canran y rheini sy'n gweithio yn y sector Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu (37.4 y cant) a'r sector Llety a Gwasnaethau Bwyd (33.5 y cant) sy'n gallu siarad Cymraeg, gan brofi fod angen hyrwyddo sgiliau dwyieithog ymhlith gweithluoedd y sectorau hynny sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd – boed yn y sector gyhoeddus, breifat neu wirfoddol.


ATODIAD I:

Graffiau

Patrymau cynnydd mewn poblogaeth a dirywiad y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, 1891-2011




Newid mewn poblogaeth a siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 1891-2011




Siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 1891-2011


Blwyddyn	Niferoedd Siaradwyr Cymraeg	% Siaradwyr Cymraeg
1891	100,282	88.9
1901	113,947	90.3
1911	127,236	85.0
1921	135,487	82.5
1931	141,138	82.3
1941		
1951	127,295	77.3
1961	120,939	75.1
1971	103,825	66.5
1981	92,705	59.2
1991	89,213	54.8
2001	83,802	50.1
2011	78,048	43.9




Siaradwyr Cymraeg, cymunedau Caerfyrddin: Gwahaniaeth % 2001-2011




Siaradwyr Cymraeg, cymunedau Dinefwr a Llanelli: Gwahaniaeth % 2001-2011




Siaradwyr Cymraeg, cymunedau Caerfyrddin: Newid % 2001-2011




Siaradwyr Cymraeg, cymunedau Dinefwr a Llanelli: Newid % 2001-2011




Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oed a Rhyw




Gallu leithyddol yn ôl Oed, Sir Gaerfyrddin 2011




Gallu leithyddol yn ôl Oed Sir Gaerfyrddin, 1991-2011




Gallu leithyddol yn ôl Oed, Sir Gaerfyrddin 1921-2001



Gallu leithyddol yn ôl Oed Sir Gaerfyrddin, 1991-2011




Newid yng nghanrannau pobl sy'n gallu siarad Cymraeg fesul grŵp oed, Sir Gaerfyrddin 2001-2011




Trosglwyddiad Iaith yn y Cartref, Sir Gaerfyrddin 2011

Niferoedd a chanrannau plant 3-4 sy'n siarad Cymraeg




Trosglwyddiad iaith yn y cartref, Sir Gaerfyrddin 2001 a 2011


Niferoedd a chanrannau plant 3-4 sy'n siarad Cymraeg




% Poblogaeth Sir Gaerfyrddin a anwyd y tu allan i Gymru, 1921-2011




% Poblogaeth Sir Gaerfyrddin a anwyd y tu allan i Gymru a % siaradwyr uniaith Saesneg, 1921-2011




Nifer trigolion Sir Gaerfyrddin a aned tu allan i Gymru , 2011




Perthynas Mewnlifiad ac Iaith, Caerfyrddin 2011




Perthynas Mewnlfriad ac Iaith, Dinefwr 2011




Perthynas Mewnlifiad ac Iaith, Llanelli 2011




Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg o fewn Diwydiant y Gyflogaeth, Sir Gaerfyrddin 2011



Galwedigaethau Siaradwyr Cymraeg, Sir Gaerfyrddin 2011



Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Dosbarth Economaidd-Gymdeithasol, Sir Gaerfyrddin 2011



ATODIAD II:

Mapiau

Allwedd i'r Mapiau

1: Wardiau Etholiadol 2011


1	Abergwili	30	Llanfihangel Aberbythych
2	Cenarth	31	Llangadog
3	Cynwyl Elfed	32	Llanymddyfri
4	Gorslas	33	Manordeilo a Salem
5	Hendy-gwyn	34	Penygroes
6	Llanboidy	35	Pontaman
7	Llanddarog	36	Rhydaman
8	Llanfihangel-ar-arth	37	Saron
9	Llangeler	38	Bigyn
10	Llangyndeyrn	39	Bynea
11	Llangynnwr	40	Cydweli
12	Llanishmel	41	Dafen
13	Llansteffan	42	Dyffryn y Swisdir
14	Llanybydder	43	Elli
15	San Clêr	44	Felinfoel
16	Tref Caerfyrddin (De)	45	Glan-y-môr
17	Tref Caerfyrddin (Gogledd)	46	Glyn
18	Tref Caerfyrddin (Gorllewin)	47	Hendy
19	Treflan Talacharn	48	Hengoed
20	Trelech	49	Llangennech
21	Betws	50	Llannon
22	Cilycwm	51	Lliedi
23	Cwarter Bach	52	Llwynhendy
24	Cynwyl Gaeo	53	Pembre
25	Garnant	54	Pontyberem
26	Glanaman	55	Porth Tywyn
27	Llandeilo	56	Trimsaran
28	Llandybïe	57	Tycroes
29	Llanegwad	58	Tyisha

Allwedd i'r Mapiau

2: Cymunedau 2011

1	Abergwili	37	Pentywyn
2	Abernant	38	San Clêr
3	Bronwydd	39	Treflan Talacharn
4	Caerfyrddin	40	Trelech
5	Castellnewydd Emlyn	41	Betws
6	Cenarth	42	Cilycwm
7	Cilymaenllwyd	43	Cwarter Bach
8	Cynwyl Elfed	44	Cwmaman
9	Eglwysgymun	45	Cynwyl Gaeo
10	Gorslas	46	Dyffryn Cennen (Ffairfach)
11	Hendy-gwyn	47	Llanddeusant
12	Henllanfallteg	48	Llandeilo
13	Llanarthne	49	Llandybïe
14	Llanboidy	50	Llanegwad
15	Llandyfaelog	51	Llanfair-ar-y-bryn
16	Llanddarog	52	Llanfihangel Aberbythych
17	Llanddowror	53	Llanfynydd
18	Llanfihangel-ar-arth	54	Llangadog
19	Llanfihangel Rhos-y-corn	55	Llangathen
20	Llangain	56	Llansadwrn
21	Llangeler	57	Llansawel
22	Llangyndeyrn	58	Llanwrda
23	Llangynin	59	Llanymddyfri
24	Llangynnwr	60	Manordeilo
25	Llangynog	61	Myddfai
26	Llanishmel	62	Rhydaman
27	Llanllawddog	63	Talylychau
28	Llanllwni	64	Cydweli
29	Llannewydd a Merthyr	65	Llanedi
30	Llanpumsaint	66	Llanelli
31	Llansteffan	67	Llanelli Wledig
32	Llanwinio	68	Llangennech
33	Llanybydder	69	Llannon
34	Llanycrwys	70	Penbre a Phorth Tywyn (Cefn Sidan)
35	Meidrim	71	Pontyberem
36	Pencarreg	72	Trimsaran


Map 1: Wardiau Etholiadol 2011 (Dosbarthiadau)




Map 1: Wardiau Etholiadol 2011 (Mentrau Iaith)



Map 2: Cymunedau 2011 (Dosbarthiadau)




Niferoedd Siarad Cymraeg, 2011 (wardiau)




map 1.1


% Siarad Cymraeg, 2011 (wardiau)




% Siarad Cymraeg, 2011 (cymunedau)




Gwahaniaeth % Siarad Cymraeg, 2001-2011 (cymunedau)




Newid % Siarad Cymraeg, 2001-2011 (cymunedau)



% Siarad Cymraeg 3-15 oed, 2011 (wardiau)




% Aelwydydd Cymraeg 2011 (wardiau)




map 3.1

% Aelwydydd cymysg eu hiaith 2011 (wardiau)




map 3.2

% Aelwydydd di-Gymraeg 2011 (wardiau)




map 3.3

% Trosglwyddiad iaith mewn aelwydydd Cymraeg 2011 (wardiau)




map 3.4


% Trosglwyddiad iaith mewn aelwydydd cymysg 2011 (wardiau)



% Trosglwyddiad iaith mewn aelwydydd di-Gymraeg 2011 (wardiau)




% Bwlch llafar-llythrennedd 2011 (wardiau)



map 4.1

% Poblogaeth a aned tu allan i Gymru 2011 (wardiau)



map 5.1

ATODIAD III:

Tablau

Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, 1891-2011

Blwyddyn	Poblogaeth dros 3 oed	Niferoedd siaradwyr:								Siaradwyr Cymraeg	
		Saesneg yn unig		Cymraeg yn unig		Cymraeg a Saesneg		laith arall	Heb ateb		
	cyfanswm	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	nifer	cyfanswm	canran
1891	112,777	11,751	10.4	63,345	56.2	36,937	32.8	69	583	100,282	88.9
1901	126,166	12,018	9.5	44,901	35.6	69,046	54.7	46	155	113,947	90.3
1911	149,691	19,991	13.4	30,705	20.5	96,531	64.5	77	2,387	127,236	85.0
1921	164,319	24,778	15.1	27,063	16.5	108,424	66.0		3,437	135,487	82.5
1931	171,445	30,307	17.7	15,728	9.2	125,410	73.1			141,138	82.3
1941											
1951	164,681	37,386	22.7	7,302	4.4	119,993	72.9			127,295	77.3
1961	161,099	40,160	24.9	3,976	2.5	116,963	72.6			120,939	75.1
1971	156,075	52,260	33.5	4,500	2.9	99,325	63.6			103,825	66.5
1981	156,484	63,779	40.8	3,211	2.1	89,494	57.2			92,705	59.2
1991	162,663	73,450	45.2	-	0.0	89,213	54.8			89,213	54.8
2001	167,373	83,571	49.9	-	0.0	83,802	50.1			83,802	50.1
2011	177,642	99,594	56.1	-	0.0	78,048	43.9			78,048	43.9

Newid yn siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin, 1891-2011

Blwyddyn	Cyfanswm Poblogaeth dros 3 oed			Siaradwyr Cymraeg				% Siaradwyr Cymraeg	% Siaradwyr di-Gymraeg
	nifer	# newid	% newid	nifer	# newid	% gwahaniaeth	% newid		
1891	112,777			100,282				88.9	10.4
1901	126,166	13,389	11.9	113,947	13,665	1.4	13.6	90.3	9.5
1911	149,691	23,525	18.6	127,236	13,289	-5.3	11.7	85.0	13.4
1921	164,319	14,628	9.8	135,487	8,251	-2.2	6.5	82.8	15.1
1931	171,445	7,126	4.3	141,138	5,651	-0.5	4.2	82.3	17.7
1941									
1951	164,681	-6,764	-3.9	127,295	-13,843	-5.0	-9.8	77.3	22.7
1961	161,099	-3,582	-2.2	120,939	-6,356	-2.2	-5.0	75.1	24.9
1971	156,075	-5,024	-3.1	103,825	-17,114	-8.6	-14.2	66.5	33.5
1981	156,484	409	0.3	92,705	-11,120	-7.3	-10.7	59.2	40.8
1991	162,663	6,179	3.9	89,213	-3,492	-4.4	-3.8	54.8	45.2
2001	167,373	4,710	2.9	83,802	-5,411	-4.7	-6.1	50.1	49.9
2011	177,642	10,269	5.8	78,048	-5,754	-6.2	-7.4	43.9	56.1

TABL 1.2

Y Gymraeg yng Nghymru, 1891-2011

Blwyddyn	Poblogaeth dros 3 oed	Niferoedd siaradwyr:								Siaradwyr Cymraeg	
		Saesneg yn unig		Cymraeg yn unig		Cymraeg a Saesneg		laith arall	Heb ateb	cyfanswm	canran
	cyfanswm	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	nifer		
1891	1,685,614	759,416	45.1	508,036	30.1	402,253	23.9	3,076	12,833	910,289	54.0
1901	1,864,696	928,222	49.8	280,905	15.1	648,919	34.8	3,893	2,757	929,824	49.9
1911	2,247,927	1,208,282	53.8	190,292	8.5	787,074	35.0	3,762	58,517	977,366	43.5
1921	2,486,740	1,477,741	59.4	156,957	6.3	772,188	31.1		79,816	929,145	37.4
1931	2,472,378	1,563,117	63.2	97,932	4.0	811,329	32.8			909,261	36.8
1941											
1951	2,472,429	1,757,743	71.1	41,155	1.7	673,531	27.2			714,686	28.9
1961	2,518,711	1,862,709	74.0	26,223	1.0	629,779	25.0			656,002	26.0
1971	2,606,960	2,060,535	79.0	32,720	1.3	509,705	19.6			542,425	20.8
1981	2,645,094	2,141,562	81.0	21,304	0.8	482,228	18.2			503,532	19.0
1991	2,723,623	2,215,525	81.3	-	0.0	508,098	18.7			508,098	18.7
2001	2,805,701	2,230,061	79.5	-	0.0	575,640	20.5			575,640	20.5
2011	2,955,841	2,393,825	81.0	-	0.0	562,016	19.0			562,016	19.0

Cyfrifiad 2011: Cymru

Awdurdodau	Poblogaeth dros 3 oed cyfanswm	Niferoedd siaradwyr:			
		Saesneg yn unig		Cymraeg a Saesneg	
		cyfanswm	canran	cyfanswm	canran
<i>Abertawe</i>	231,155	204,823	88.6	26,332	11.4
<i>Blaenau Gwent</i>	67,348	62,064	92.2	5,284	7.8
<i>Bro Morgannwg</i>	122,018	108,829	89.2	13,189	10.8
<i>Caerdydd</i>	332,273	295,538	88.9	36,735	11.1
<i>Caerffili</i>	171,972	152,721	88.8	19,251	11.2
<i>Casnewydd</i>	139,849	126,847	90.7	13,002	9.3
<i>Castell-nedd Port Talbot</i>	135,278	114,580	84.7	20,698	15.3
<i>Ceredigion</i>	73,847	38,883	52.7	34,964	47.3
<i>Conwy</i>	111,724	81,124	72.6	30,600	27.4
<i>Gwynedd</i>	117,789	40,789	34.6	77,000	65.4
<i>Merthyr Tudful</i>	56,623	51,595	91.1	5,028	8.9
<i>Pen-y-bont ar Ogwr</i>	134,545	121,442	90.3	13,103	9.7
<i>Powys</i>	129,083	105,093	81.4	23,990	18.6
<i>Rhondda Cynon Taf</i>	225,555	197,776	87.7	27,779	12.3
<i>Sir Benfro</i>	118,392	95,606	80.8	22,786	19.2
<i>Sir Ddinbych</i>	90,527	68,291	75.4	22,236	24.6
<i>Sir Fynwy</i>	88,609	79,829	90.1	8,780	9.9
<i>Sir Gaerfyrddin</i>	177,642	99,594	56.1	78,048	43.9
<i>Sir Y Fflint</i>	146,940	127,597	86.8	19,343	13.2
<i>Torfaen</i>	87,844	79,203	90.2	8,641	9.8
<i>Wrecsam</i>	129,425	112,766	87.1	16,659	12.9
<i>Ynys Môn</i>	67,403	28,835	42.8	38,568	57.2
<i>Cymru</i>	2,955,841	2,393,825	81.0	562,016	19.0

Sir Gaerfyrddin, 2011

Poblogaeth a gyfrifwyd (3 oed a throsodd) yn ôl y nifer sy'n siarad Cymraeg a'r nifer sy'n deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (seiliedig ar DC2206WA)

Ward	Poblog. 3+	Deall yn unig		Yn siarad Cymraeg										Cyfuniad arall o sgiliau		Dim Cymraeg	
				Cyfanswm		Siarad yn unig		a Darllen		ac Ysgrifennu		cyfuniad arall					
	cyfanswm	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran
Abergwili	2,257	216	9.6	1,257	55.7	133	5.9	98	4.3	1,015	45.0	11	0.5	58	2.6	726	32.2
Betws	2,077	263	12.7	1,109	53.4	181	8.7	110	5.3	805	38.8	13	0.6	70	3.4	635	30.6
Bigyn	6,497	879	13.5	1,496	23.0	304	4.7	168	2.6	1,017	15.7	7	0.1	254	3.9	3,868	59.5
Bynea	4,028	535	13.3	1,247	31.0	219	5.4	124	3.1	894	22.2	10	0.2	110	2.7	2,136	53.0
Cenarth	2,142	182	8.5	1,045	48.8	129	6.0	96	4.5	815	38.0	5	0.2	39	1.8	876	40.9
Cilycwm	1,481	128	8.6	681	46.0	55	3.7	72	4.9	553	37.3	1	0.1	34	2.3	638	43.1
Cwarter Bach	2,827	221	7.8	1,942	68.7	277	9.8	157	5.6	1,496	52.9	12	0.4	34	1.2	630	22.3
Cydweli	3,402	491	14.4	1,510	44.4	283	8.3	190	5.6	1,033	30.4	4	0.1	87	2.6	1,314	38.6
Cynwyl Elfed	2,939	237	8.1	1,597	54.3	164	5.6	83	2.8	1,343	45.7	7	0.2	50	1.7	1,055	35.9
Cynwyl Gaeo	1,564	115	7.4	730	46.7	51	3.3	45	2.9	630	40.3	4	0.3	29	1.9	690	44.1
Dafen	3,458	492	14.2	931	26.9	226	6.5	115	3.3	584	16.9	6	0.2	128	3.7	1,907	55.1
Dyffryn y Swisdir	2,482	362	14.6	822	33.1	152	6.1	85	3.4	582	23.4	3	0.1	91	3.7	1,207	48.6
Elli	3,107	461	14.8	890	28.6	173	5.6	109	3.5	607	19.5	1	0.0	100	3.2	1,656	53.3
Felinfoel	1,958	261	13.3	551	28.1	111	5.7	59	3.0	376	19.2	5	0.3	65	3.3	1,081	55.2
Garnant	2,061	221	10.7	1,206	58.5	194	9.4	121	5.9	890	43.2	1	0.0	34	1.6	600	29.1
Glanaman	2,277	242	10.6	1,361	59.8	253	11.1	123	5.4	980	43.0	5	0.2	26	1.1	648	28.5
Glan-y-môr	5,374	692	12.9	1,030	19.2	232	4.3	119	2.2	675	12.6	4	0.1	169	3.1	3,483	64.8
Glyn	2,083	197	9.5	1,227	58.9	156	7.5	99	4.8	966	46.4	6	0.3	35	1.7	624	30.0
Gorslas	3,938	304	7.7	2,523	64.1	309	7.8	237	6.0	1,969	50.0	8	0.2	60	1.5	1,051	26.7
Hendy	3,111	349	11.2	1,362	43.8	202	6.5	150	4.8	1,006	32.3	4	0.1	93	3.0	1,307	42.0
Hendy-gwyn	2,201	236	10.7	933	42.4	141	6.4	88	4.0	698	31.7	6	0.3	60	2.7	972	44.2
Hengoed	3,633	504	13.9	1,189	32.7	213	5.9	107	2.9	865	23.8	4	0.1	125	3.4	1,815	50.0
Llanboidy	2,039	162	7.9	993	48.7	110	5.4	87	4.3	790	38.7	6	0.3	45	2.2	839	41.1
Llandeilo	1,904	178	9.3	1,101	57.8	122	6.4	97	5.1	881	46.3	1	0.1	29	1.5	596	31.3
Llandybïe	2,889	402	13.9	1,454	50.3	209	7.2	145	5.0	1,094	37.9	6	0.2	86	3.0	947	32.8
Llanddarog	3,870	516	13.3	2,207	57.0	412	10.6	240	6.2	1,545	39.9	10	0.3	82	2.1	1,065	27.5
Llanegwad	2,379	181	7.6	1,273	53.5	134	5.6	94	4.0	1,044	43.9	1	0.0	54	2.3	871	36.6
Llanfihangel Aberbythych	1,809	143	7.9	933	51.6	111	6.1	83	4.6	732	40.5	7	0.4	45	2.5	688	38.0
Llanfihangel-ar-arth	2,764	188	6.8	1,588	57.5	172	6.2	79	2.9	1,335	48.3	2	0.1	48	1.7	940	34.0
Llangadog	1,883	172	9.1	1,048	55.7	108	5.7	91	4.8	843	44.8	6	0.3	23	1.2	640	34.0
Llangeler	3,327	273	8.2	1,812	54.5	197	5.9	104	3.1	1,508	45.3	3	0.1	36	1.1	1,206	36.2
Llangennech	4,786	620	13.0	1,912	39.9	295	6.2	174	3.6	1,438	30.0	5	0.1	135	2.8	2,119	44.3
Llangyndeyrn	3,012	301	10.0	1,771	58.8	218	7.2	168	5.6	1,375	45.7	10	0.3	52	1.7	888	29.5
Llangynnwr	2,315	296	12.8	1,111	48.0	160	6.9	101	4.4	845	36.5	5	0.2	69	3.0	839	36.2
Llanishmel	2,910	347	11.9	1,463	50.3	172	5.9	155	5.3	1,131	38.9	5	0.2	70	2.4	1,030	35.4

TABL 1.5

Ward	Poblog. 3+	Deall yn unig		Yn siarad Cymraeg										Cyfuniad arall o sgiliau		Dim Cymraeg	
				Cyfanswm		Siarad yn unig		a Darllen		ac Ysgrifennu		cyfuniad arall					
	cyfanswm	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran	nifer	canran
Llannon	5,083	437	8.6	3,262	64.2	505	9.9	328	6.5	2,418	47.6	11	0.2	67	1.3	1,317	25.9
Llansteffan	1,970	211	10.7	870	44.2	122	6.2	71	3.6	671	34.1	6	0.3	65	3.3	824	41.8
Llanybydder	2,678	193	7.2	1,570	58.6	190	7.1	121	4.5	1,248	46.6	11	0.4	39	1.5	876	32.7
Llanymddyfri	2,619	311	11.9	1,056	40.3	170	6.5	92	3.5	789	30.1	5	0.2	71	2.7	1,181	45.1
Lliedi	5,237	686	13.1	1,474	28.1	275	5.3	168	3.2	1,025	19.6	6	0.1	201	3.8	2,876	54.9
Llwynhendy	4,281	595	13.9	1,117	26.1	248	5.8	121	2.8	740	17.3	8	0.2	138	3.2	2,431	56.8
Manordeilo a Salem	2,199	187	8.5	1,060	48.2	135	6.1	83	3.8	836	38.0	6	0.3	39	1.8	913	41.5
Penbre	4,188	577	13.8	1,301	31.1	225	5.4	136	3.2	927	22.1	13	0.3	156	3.7	2,154	51.4
Penygroes	2,784	274	9.8	1,733	62.2	224	8.0	153	5.5	1,352	48.6	4	0.1	31	1.1	746	26.8
Pontaman	2,676	380	14.2	1,419	53.0	248	9.3	156	5.8	1,000	37.4	15	0.6	68	2.5	809	30.2
Pontyberem	2,681	191	7.1	1,806	67.4	217	8.1	152	5.7	1,433	53.5	4	0.1	32	1.2	652	24.3
Porth Tywyn	4,113	575	14.0	1,324	32.2	228	5.5	168	4.1	921	22.4	7	0.2	164	4.0	2,050	49.8
Rhydaman	2,585	433	16.8	1,290	49.9	261	10.1	169	6.5	851	32.9	9	0.3	64	2.5	798	30.9
San Clêr	3,976	434	10.9	2,164	54.4	365	9.2	214	5.4	1,578	39.7	7	0.2	71	1.8	1,307	32.9
Saron	2,619	310	11.8	1,275	48.7	164	6.3	144	5.5	964	36.8	3	0.1	59	2.3	975	37.2
